

Royal Welsh College of Music and Drama Limited

Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru Cyfyngedig

**Datganiadau Ariannol ac Adolygiad Blynyddol
Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021**

Cwmni Cofrestredig rhif	06013744
Elusen Gofrestredig rhif	1139282

Cynnwys

Tudalen

1. Cyfeirnodau a manylion gweinyddol	3
2. Adroddiad y Cadeirydd	4 - 8
3. Strwythur corfforaethol, ymddiriedolwyr a chyfarwyddwyr	9
4. Adroddiad yr Ymddiriedolwyr (yn cynnwys yr Adroddiad Strategol)	10 - 16
5. Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr	17
6. Amcanion a gweithgareddau er budd y cyhoedd	18 - 20

Atodiad Technegol – Datganiadau Ariannol

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol	21 - 24
Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	25
Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn	26
Mantolen	27
Llif Arian	28
Nodiadau ar gyfer y datganiadau ariannol	29 - 44

1. Cyfeirnodau a manylion gweinyddol

Enw'r Elusen	Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
Rhif Elusen	1139282
Rhif Cwmni	06013744

Cadeirydd
Mr J Derrick

Ysgrifennydd
Mr W Callaway

Prif gyfeiriad a swyddfa gofrestredig
Maes y Castell
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3ER

Archwilwyr annibynnol
Allanol: KPMG LLP
3 Sgwâr y Cynulliad,
Cei Britannia,
Caerdydd,
CF10 4AX

Mewnol: TIAA Ltd
Artillery House
Fort Fareham
Newgate Lane
Fareham
PO14 1AH

2. Adroddiad y Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth o ben 31 Gorffennaf 2021

Fel Cadeirydd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru Cyfyngedig - Conservatoire Cenedlaethol Cymru - braint i mi yw darparu Adroddiad Blynyddol am weithgareddau'r Coleg dros y flwyddyn ddiwethaf.

2.1. Rhagymadrodd

Pan ddechreuodd y flwyddyn adrodd hon, roedd y Coleg ond ychydig fisoedd i mewn i'r pandemig Covid 19, ar ôl cau ei ddrysau ym mis Mawrth 2020. Yn ystod y cyfnod byr hwnnw o newid aruthrol, rhoddwyd pob cam hanfodol ar waith i sicrhau y gallai'r myfyrwyr gwblhau'r flwyddyn academiaidd honno, ac yna parhau i ddysgu yn y ffordd orau posibl mewn modd cyfunol drwy gydol y flwyddyn academiaidd nesaf. Bu'r hyn a ddigwyddodd yn gyflawniad rhyfeddol – sy'n glod i gymuned gyfan y Coleg yn cydweithio.

O dywyllwch y cyfnod clo a'r pandemig byd-eang gwnaethom addunedu i ddod allan yr ochr arall yn gryfach ac yn fwy uchelgeisiol nag erioed o'r blaen, gyda phenderfyniad i fod yn arweinydd disglair ar gyfer dyfodol y diwydiannau proffesiynol ac ar gyfer cymunedau ehangach yng Nghymru a thu hwnt. Hwnnw oedd ein haddewid i'r byd.

Ni wastraffwyd munud yn rhoi'r adduned hwnnw ar waith, gan addasu ac arloesi i sicrhau y gallai myfyrwyr barhau â'u hyfforddiant a dysgu i ffynnu mewn dyfodol aneglur. Rydym yn diolch o waelod calon i'n cefnogwyr am ein cynorthwyo i gyflawni hyn.

Gwnaethom yn siŵr ein bod yn sicrhau cymaint â phosibl o hyfforddiant wyneb yn wyneb, tra'n cadw pawb yn ddiogel. Ailddyfeisiodd y Coleg ffyrdd o gyflwyno ein cyrsiau, gan ddefnyddio technoleg ddigidol i drawsnewid ein cynnig i fyfyrwyr a chynulleidfaoedd, a olygodd nid yn unig ein bod ni'n dysgu llawer, ond bod ein myfyrwyr yn datblygu ystwythder a gwytnwch rhyfeddol a'u bod yn barod ar gyfer y diwydiant. Gwnaethom hefyd ymestyn ein cyrhaeddiad ymhellach nad erioed o'r blaen - yn amrywio o ddarparu cyngherddau am ddim i gartrefi gofal ledled Cymru er mwyn goleuo ychydig ar y dyddiau tywyll hynny gyda cherddoriaeth, i werthu tocynnau cyn belled ag UDA, Canada a Corea. Gyda'n gilydd llwyddom i dorri tir newydd.

Yn ystod y cyfnod hwn - fy mhedwaredd flwyddyn yn Gadeirydd - bu'n fraint i groesawu'r Athro Uzo Iwobi OBE yn Is-lywydd newydd y Coleg. Mae Uzo, a oedd yn Athro Cadair Rhyngwladol dros Gydraddoldeb yn flaenorol, yn llawn doethineb ym maes cydraddoldeb ac yn ffynhonnell gyson o ysbrydoliaeth ac anogaeth wrth i'r Coleg barhau ar ei daith i fod yn fan ar gyfer pawb. Hoffwn gynnig fy niolchiadau parhaus i'n Llywydd, EUB Tywysog Cymru, i'r Arglwydd Rowe-Beddoe o Gilgeti, ein Cadeirydd Llawryfog, ac i'm holl gyd Ymddiriedolwyr am eu hymroddiad brwd ac ymroddedig.

Mae Adroddiad y Cadeirydd eleni yn adrodd stori'r Coleg drwy'r prif adrannau canlynol:

- 2.2 Ffeithiau Allweddol am y Coleg
- 2.3 Gweledigaeth, Strategaeth a Gwerth
- 2.4 Uchafbwyntiau'r Flwyddyn
- 2.5 Profiad Myfyrwyr

2.2. Ffeithiau Allweddol am y Coleg

Corff Myfyrwyr

Yn 2020/21 roedd gan y Coleg 807 o fyfyrwyr (2019/20: 817)

- 74% yn fyfyrwyr gradd a 26% yn fyfyrwyr ôl-radd (2019/20: 73% a 27%)
- 75% o'r DU gyda 20% o Gymru (2019/20: 82% a 22%)
- 19% o wledydd tramor y tu allan i'r UE (2019/20: 11%)
- 6% o'r UE (2019/20: 7%)
- 56 o wahanol wledydd (2019/20: 50)
- 17% wedi datgan anabledd (2019/20: 17% heb newid)
- 17% wedi datgan ethnigrwydd sydd ddim yn wyn (2019/20: 19%)
- 12% wedi datgan eu bod yn siarad Cymraeg (2019/20: 12% heb newid)
- 95% o gyfradd cadw (2019/20: 96%)
- 88% o'r myfyrwyr a raddiodd wedi ennill gradd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uwch (2019/20: 92%)

Roedd yr addasiadau a wnaed eleni ar gyfer y corff myfyrwyr oherwydd Covid yn parhau i fod yn sylweddol. Erbyn Pasg 2021, ar ôl aros ar agor ar gyfer hyfforddiant wyneb yn wyneb a pherfformio drwy gydol y flwyddyn academiaidd, gwnaethom roi ystyriaeth i rai o'r camau hyn a'u heffaith:

2.3. Gweledigaeth, Strategaeth a Gwerth

Gweledigaeth y Coleg yw newid bywydau, trawsnewid a chysylltu cymunedau drwy'r celfyddydau. Mae'r rhaglenni gwaith ar gyfer 2019-2024 wedi'u hadeiladu ar bum piler strategol:



Mae'r Coleg yn defnyddio'r adnoddau canlynol i gyflawni'r nodau hyn:

- incwm gan fyfyrwyr (£9.0 miliwn), Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (£4 miliwn), dyngarwch a mentrau codi arian (£1.1 miliwn) a ffynonellau eraill (£1.1 miliwn)
- cyfleusterau perfformio o'r radd flaenaf megis Neuadd Dora Stoutzker a Theatr Richard Burton
- staff hynod gymwys, ymroddedig a dawnus

- Trwy wneud y defnydd gorau o'r adnoddau hyn ar draws cymuned y Coleg, mae CBCDC yn sicrhau bod gwybodaeth, profiad a chyfleoedd i berfformio yn cael eu cynnig i'n myfyrwyr er mwyn darparu gweithlu o ansawdd uchel i'r diwydiannau creadigol yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol. Mae defnydd adnoddau'r Coleg yn gwella cyflogadwyedd a phroffesiynoldeb ein myfyrwyr fel bod ein cynfyfyrwyr yn cynnal ein henw, a'n henw da, yn llwyddiannus ar draws y diwydiant.


Er bod ein drysau ar gau i gynulleidfaoedd, ni ddaeth y sioe i ben. Roedd y newid cyflym i fyd digidol yn gyfle i ailfeddwl am yr hyn rydym yn ei gynnig ac roedd yn golygu y gallai adegau o hyfrydwch byw gael eu rhannu y tu hwnt i'n muriau mewn ffyrdd newydd. Roedd y rhain yn cynnwys *24 Pianos* gan Julia Plaut, a ysgrifennwyd ac a berfformiwyd i ddathlu ffylid newydd sbon o bianos Steinway y Coleg, gan wneud Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru y conservatoire Steinway yn unig cyntaf yn y byd. Perfformiwyd y darn ar 24 o bianos a oedd wedi'u lleoli'n ofalus yng Nghyntedd Carne gwych y Coleg. Roedd y wledd i'r glust a'r llygad, ac fe'i cymeradwywyd o bell gan gynulleidfaoedd nad oedd yn gallu cael mynediad i'r adeilad.

Gan gyfuno rhagoriaeth myfyrwyr gyda gwybodaeth artistiaid ar ymweliad, gwnaethom hefyd lansio rhaglen greadigol arloesol ac amrywiol. Fe wnaeth detholiad disglair o artistiaid proffesiynol ysbrydoli'r myfyrwyr a chynulleidfaoedd ar-lein fel ei gilydd a dweud wrthym cymaint yr oedd yn ei olygu i allu perfformio yn ein lleoliad unigryw yn ystod cyfnod pan fo cymaint o leoliadau yn dal ar gau. Roedd hi hefyd yn fraint eithriadol i allu rhannu perfformiadau am ddim gyda chartrefi gofal yng Nghymru, er mwyn dod ag ychydig o oleuni i gyfnod a oedd yn anodd iawn i bawb.



Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru Cyfyngedig | Datganiadau Ariannol ac Adolygiad Blynvddol | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021

sicrhau amrywiaeth o fewn ein cynulleidfaoedd a gosod targedau newydd ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant drwy'r rhaglen greadigol – gan adlewyrchu ymrwymiad parhaus y Coleg i'r gwaith strategol pwysig hwn.



2.5. Profiad Myfyrwyr

Cymerodd 130 o'r 162 o fyfyrwyr cymwys ran yn Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol 2021 yn CBCDC (80.24%), o gymharu â 77.95% yn 2020. Mae hyn yn parhau i gymharu'n dda â chyfraddau cyfranogi ar draws Cymru, a oedd yn 69.3% yn 2021. Mae bodlonrwydd cyffredinol wedi gostwng o 73.74% yn 2020 i 70.0% yn 2021, gyda llawer o'r gostyngiad hwn wedi'i briodoli i un cwrs, lle bydd camau wedi'u targedu yn cael eu rhoi ar waith.

Fodd bynnag, yng Nghymru, fe wnaeth bodlonrwydd cyffredinol ar draws y sector hefyd ostwng yn 2021 a chaeodd y bwlch blaenorol o dros 10% rhwng CBCDC a chyfartaledd Cymru i 6 %. Mae hwn yn gyflawniad mawr yng nghyd-destun y pandemig byd-eang ac effaith olynol hyn ar brofiad dysgu myfyrwyr. Yn fwyaf nodedig, tyfodd y bodlonrwydd cyffredinol mewn cerddoriaeth ar lefel gradd o 57.89% yn 2020 i 63.86% yn 2021. Mae hyn yn galonogol a byddai'n ymddangos bod y camau cynllunio a sefydlwyd yn flaenorol mewn ymateb i'r ACM gan y Coleg yn casglu momentwm.



2.6. Edrych Ymlaen

Yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ebrill 2021, derbyniodd a chymeradwyodd y Cyfarwyddwyr strategaeth ariannol wedi'i diweddaru ar gyfer y Coleg am y pum mlynedd nesaf. Roedd hyn yn rhoi ystyriaeth i effeithiau Covid-19 ond hefyd yn cynnwys cynigion i fuddsoddi'n feiddgar fel y gallwn sicrhau twf incwm yn y dyfodol a grymuso datblygiad y Coleg a dyfodol cynaliadwy a ffyniannus.

Mae'r cynllun buddsoddi newydd cymeradwyedig yn canolbwyntio ar gryfhau ein busnes craidd ac yn mynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol dros y 18-24 mis nesaf a fydd yn cynnwys:

- Cynyddu ein gallu i dyfu ein rhaglen radd/cymuned myfyrwyr i sicrhau lefelau uwch o incwm cynaliadwy
- Cyflwyno cyrsiau newydd sydd wedi'u profi yn y farchnad a ystyrir i fod yn hollbwysig i Gymru, gan gynnwys BA mewn Theatr Gerddorol, gradd Sylfaen mewn Adeiladu Golygfeydd, MA mewn Perfformio Cydweithredol, meysydd newydd yn y cynnig BMus ac arbenigeddau newydd mewn MA Rheolaeth yn y Celfyddydau. Rydym hefyd yn cyflwyno Opera 360, cwrs modiwlaid nad yw'n berfformio, a gyflwynir yn bennaf ar-lein a gyda'r potensial i arwain at radd MA.
- Datblygu ein hamgylchedd gweithio, ein diwylliant a'n gwerthoedd. Yn ogystal â buddsoddi o'r diwedd mewn staff ychwanegol, mae'r gwaith hwn yn cynnwys datblygu ein strategaeth a'n cynllun gweithredu y cytunwyd arno i ehangu mynediad ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan gwmpasu'n gynhwysfawr recriwtio myfyrwyr a staff, cwricwlwm ac addysgeg, rhalgennu creadigol, a sut rydym yn ymgysylltu'n rhagweithiol i ddatblygu perthynas gyda mwy o gymunedau'n lleol ac ar draws Cymru.
- Tyfu ein gallu digidol i sicrhau bod sgiliau digidol yn cael eu gwreiddio'n llawn yn ein hyfforddiant ar gyfer myfyrwyr pan fo hynny'n briodol, ac yn yr un modd codi proffil y Coleg ac ymestyn y cynnig newydd i gynulleidfaoedd yma ac yn rhyngwladol.
- Datblygu ein polisi Cynaliadwyedd ac Amgylcheddol er mwyn bodloni ymrwymadau allweddol sy'n cynnwys dod yn garbon niwtral erbyn 2040 a gwneud ein hadduned 'Ras i Sero' cyn cynhadledd COP26 y Cenhedloedd Unedig ym mis Tachwedd eleni.
- Ehangu ein campws i ddarparu ar gyfer ein niferoedd uwch o fyfyrwyr a chynnydd yn ein hallbwn artistig, a hefyd ei ail-sefydlu fel hyb diwylliannol, artistig ac addysg pwysig, gan ail-fywiogi'r parth cyhoeddus yn unol ag amcanion adfer y llywodraeth.

2.7. Casgliad

Yn y flwyddyn fwyaf rhyfeddol hon, mae'n anhygoel bod y Coleg wedi llwyddo i gynnal profiad myfyrwyr gwerthfawr gan gynnwys cyflwyno hyfforddiant wyneb yn wyneb, swm eithriadol o gynyrchiadau a chwblhau'r holl raglenni academiaidd yn unol â'r bwriad. Mae'r teimlad o benderfyniad i adfer yn gryfach wedi bod yn glir, yn ysbrydoledig ac wedi grymuso arloesodd. Mae ein cynulleidfaoedd wedi aros yn ffyddlon ac rydym wedi cyrraedd cynulleidfaoedd ehangach nag erioed diolch i dechnoleg. Fel sefydliad dylanwadol yn y diwydiant rydym wedi arwain drwy esiampl, gan rannu ein gwybodaeth i gynorthwyo eraill lle bo hynny'n bosibl a dysgu drwy gydweithredu.

Hoffwn ddiolch i'r Prifathro a'n holl gydweithwyr am y flwyddyn hon, a fydd yn cael ei chofio gyda chymysgedd o emosiynau gan lawer. Ar gyfer CBCDC, drwy ddyddiau tywyllaf y pandemig roedd yn flwyddyn i fod yn wirioneddol falch ohoni.



John Derrick

Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr
30 Tachwedd 2021

3. Strwythur corfforaethol, ymddiriedolwyr a chyfarwyddwyr

Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn gwmni cyfyngedig ac yn elusen gofrestredig. Caiff ei lywodraethu gan ei Erthyglau Cymdeithasu.

Cyfeiriad cofrestredig yr elusen yw Prifysgol De Cymru, Trefforest, Pontypridd, CF37 1DL a'i rhif cofrestredig yw 1139282.

Aelodau'r Bwrdd, a restrir isod, yw ymddiriedolwyr yr Elusen ac felly maent yn rhoi sylw dyledus i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd y cyhoedd a'i ganllawiau atodol ar ddatblygiad addysg er budd y cyhoedd.

Rhoddir enwau'r Cyfarwyddwyr presennol a'r rheini oedd yn dal swydd yn ystod y flwyddyn hyd at ddyddiad arwyddo'r adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol, isod:

John Derrick (Cadeirydd)

Athro Helena Gaunt (Prifathro - ex officio)

Dr Ben Calvert (Is-ganghellor - ex officio, o 1 Medi 2021)

Athro Julie Lydon (Is-ganghellor - ex officio, ymddiswyddodd 31 Awst 2021)

Rebecca Mercer (Llywydd Myfyrwyr, o 16 Awst 2021)

Nia Thomas (Llywydd Myfyrwyr, ymddiswyddodd 31 Gorffennaf 2021)

Lucy Hall (enwebai Staff y Coleg, penodwyd 8 Hydref 2020)

Jemma Terry (Bwrdd PDC)

Natasha Hale

Manon Bonner Antoniazzi

Aled Miles

Mario Ferelli

Roger Munnings

4. Adroddiad yr Ymddiriedolwyr (yn cynnwys Adroddiad Strategol)

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr Adroddiad Strategol ac adroddiad y Cyfarwyddwyr sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cwmnïau 2006. Mae'r Cyfarwyddwyr yn cadarnhau bod y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 wedi eu paratoi i gydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006 a'r Datganiad o Arfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2019 ac yn unol â safonau cyfrifyddu priodol.

4.1. Adroddiad Strategol

Adolygiad Ariannol

Prif weithgareddau

Prif weithgaredd y Coleg yw darparu addysg conservatoire a hyfforddiant proffesiynol. Yn ogystal, mae gweithgareddau'r Coleg yn cynnwys darpariaeth perfformiadau ac arddangosfeydd cyhoeddus a chynnal a gwella cyfleusterau perfformio er budd y gymuned leol.

Strategaeth ariannol

Bwriedir i'n strategaeth ariannol sicrhau hyfywedd ariannol a chynaliadwyedd hirdymor y Coleg drwy greu amgylchedd gweithredu lle mae staff yn atebol ac yn gyfrifol am stiwardiaeth effeithlon ac effeithiol ein hadnoddau.

Rydym yn parhau i gynnal ac adeiladu ar ein rheolaeth ariannol gadarn wrth ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau a geir ym maes addysg conservatoire sy'n newid. I wneud hyn, byddwn yn parhau i reoli ein harian yn ofalus er mwyn cefnogi ein blaenoriaethau strategol a'n gallu i gynnal a gwella ein seilwaith. Byddwn yn rheoli costau, gan wneud penderfyniadau strategol cadarn ar weithgareddau sydd naill ai'n gynaliadwy yn ariannol neu sy'n cyd-fynd â Chynllun Strategol y Coleg.

Mae'r Coleg wedi nodi nifer o ddangosyddion perfformiad ariannol allweddol y mae'n eu monitro fel rhan o'i strategaeth ariannol. Mae perfformiad dros y tair blynedd diwethaf yn dangos:

Dangosyddion Perfformiad Allweddol	2020/21	2019/20	2018/19
Gwarged/(diffyg) cyn enillion a cholledion - £000	(890)	34	91
Arian parod (gan gynnwys bondiau tymor byr) - £000	7,338	8,570	6,490
Asedau net - £000	7,354	7,832	8,138
Cymhareb bresennol	2.7	2.4	3.7

Er gwaethaf yr heriau yn sgil y pandemig Covid sydd wedi effeithio ar y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r sefyllfa ariannol waelodol yn parhau'n gryf gyda digon o arian ac asedau net i barhau i weithredu'n effeithiol yn unol â Strategaeth y Coleg.

Rhagolygon ariannol

Mae'r rhagolygon recriwtio ar gyfer 2021/22 bellach yn fwy calonogol, a disgwyliwn weld rhywfaint o adferiad o effeithiau pandemig Covid-19 y flwyddyn nesaf. Mae hyn, ynghyd ag ailgychwyn gweithgareddau masnachol, yn dangos y bydd incwm yn dechrau tyfu eto yn 2021/22 gan alluogi'r Coleg i ddechrau gweithredu strategaeth fuddsoddi newydd a ddisgrifir yn fyr yn adroddiad y Cadeirydd.

Mae'r strategaeth fuddsoddi yn nodi cynlluniau i fuddsoddi hyd at £1.3 miliwn y flwyddyn yn y ddarpariaeth academaidd graidd - dull sy'n sail i'r strategaeth twf recriwtio myfyrwyr. Bydd hyn yn rhoi diffygion pellach yn y tair blynedd nesaf ac yn lleihau'r cronfeydd arian parod o £7.3 miliwn i £3 miliwn yn 2022/23 cyn ailadeiladu o 2023/24.

Perfformiad Ariannol 2020/21

- Mae incwm wedi gostwng gan 1% i £15,248k
- Mae cyfanswm gwariant wedi cynyddu gan 5% i £16,138k
- O ganlyniad mae gwarged o £35k wedi lleihau i ddiffyg o £890k yn 2020/21
- Gwelwyd gostyngiad mewn arian a gynhyrchwyd o weithgareddau gweithredu o £2,330k i £728k
- Bu gostyngiad mewn asedau net o £7,832k i £7,354k

Incwm

Cafodd cynnydd bach mewn ffioedd dysgu, gan adlewyrchu cynnydd chwyddiant mewn ffioedd heb eu rheoleiddio, a grantiau cymorth myfyrwyr ychwanegol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, eu gwrthbwyso gan ostyngiadau mewn refeniw masnachol a lefel is o gyllid o roddion a gwaddolion.

Gwariant

Gellir priodoli'r rhan fwyaf o'r cynnydd mewn gwariant i gynnydd mewn costau staff - £385k yn gynnydd mewn taliadau pensiwn a £193k o ganlyniad i gyflogau uwch ac argostau eraill sy'n gysylltiedig â heriau na chynlluniwyd ar eu cyfer sy'n gysylltiedig â pharhau i ddarparu dysgu ac addysgu mewn amgylchedd diogel Covid-19.

Arian a gynhyrchwyd o weithgareddau gweithredu

Roedd y symudiad o warged bach i ddiffyg o £890k yn cyfrif am ostyngiad o £924k mewn arian parod gweithredol ac roedd y balans o £678k yn ymwneud â symudiadau cyfalaf gweithio gan gynnwys ad-dalu cyllid tymor byr o £585k ym mis Awst 2020.

Roedd symudiadau arwyddocaol eraill mewn arian parod yn y flwyddyn yn cynnwys ad-dalu benthyciadau a llog i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Barclays o £1,776k.

Buddsoddiadau asedau sefydlog diriaethol

Parhaodd y broses o gaffael technoleg ddigidol yn 2020/21 wrth i ni gyflwyno rhaglen fuddsoddi mewn gallu cipio, recordio a rhannu cyfryngau ar draws ein holl fannau addysgu ac ymarfer mwyaf ynghyd â buddsoddiad mewn camerâu ac offer sain ar gyfer recordio a ffrydio yn ein lleoliadau. Bellach mae dros £210k wedi'i fuddsoddi yn y cyfleusterau hyn.

Pensiynau

Mae diffyg Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf y gellir ei phriodoli i'r Cwmni ar sail FRS102 wedi cynyddu o £8,836k i £9,725k.

4.2. Ymgysylltu â'n rhanddeiliaid (datganiad adran 172 (1))

Mae'n ddyletswydd ar yr Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn Gyfarwyddwyr Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru at ddibenion cyfraith cwmnïau) i hyrwyddo llwyddiant y Coleg er budd ei aelodau gan roi ystyriaeth i fuddiannau ein rhanddeiliaid, ein myfyrwyr, ein cynulleidfaoedd, ein gweithwyr, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ein perthynas â'n cyflenwyr ac effaith ein gweithrediadau ar y cymunedau rydym yn gweithredu ynddynt, ac i sicrhau ein bod yn cynnal enw da am safonau uchel o ran ansawdd, gofal ac ymddygiad busnes.

Mae holl benderfyniadau allweddol y Bwrdd yn ystyried yr effaith ar randdeiliaid perthnasol gyda ffocws penodol ar ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, ymgysylltiad rhagorol â'r gymuned, arloesedd, arfer gorau mewn llywodraethu, arferion gweithle a dinasyddiaeth gorfforaethol gyfrifol. Mae'r Bwrdd yn ymdrechu i ddod i ddeall canfyddiadau ac agweddau pob grŵp o randdeiliaid a'r pwysau y maent yn ei roi i wahanol faterion a lle na fydd y safbwyntiau hyn yn cyd-fynd, bydd y Bwrdd yn cymryd y camau gorau i hyrwyddo llwyddiant hirdymor y cwmni.

Ein myfyrwyr

Mae ein myfyrwyr wrth wraidd ein busnes a'n gweithrediadau. Ein nod yw denu, dewis a chadw ystod amrywiol o fyfyrwyr i astudio yn y Coleg a chreu amgylchedd sy'n annog ac yn cefnogi'r holl fyfyrwyr i ymgysylltu'n weithredol ac i wireddu eu potensial yn llawn.

Cyflogeion, cynnwys cyflogeion a chyflogeion anabl

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2025 y Coleg yn cynnwys amcan craidd i ddenu, cadw a datblygu ystod amrywiol o bobl i weithio i'r Coleg a'u galluogi i gael mynediad at ddatblygiad a dilyniant gyrfa agored a thryloyw. Rhoddir ystyriaeth lawn bob amser i geisiadau am gyflogaeth gan bobl anabl, gan ystyried doniau a galluoedd priodol yr ymgeisydd dan sylw. Os bydd aelodau staff yn dod yn anabl, gwneir pob ymdrech i sicrhau bod eu cyflogaeth gyda'r Cwmni yn parhau ac y trefnir hyfforddiant priodol. Mae'n bolisi gan y Cwmni y dylai hyfforddiant, datblygiad gyrfa a dyrchafiad unigolyn anabl, cyn belled ag y bo modd, fod yn union yr un fath ag a fyddai ar gyfer person nad yw'n anabl.

Ymgynghorir yn rheolaidd â gweithwyr neu eu cynrychiolwyr, gyda'r nod o sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried pan wneir penderfyniadau sy'n debygol o effeithio ar eu buddiannau.

Cyfathrebir â'r holl weithwyr drwy gyfarfodydd staff bob tymor a negeseuon e-bost rheolaidd.

Mae gan aelodau staff hefyd Gyfarwyddwr ar y Bwrdd Cyfarwyddwyr.

Rheoleiddwyr

Mae'r Coleg yn darparu gwasanaethau Addysg Uwch ac fel rhan o Grŵp Prifysgol De Cymru mae'n gweithio'n agos gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru sef y prif gorff cyllido ar gyfer mwyafrif o incwm grant y Coleg. Cyflwynir adroddiadau ansoddol ac ariannol rheolaidd ac mae llwyddiant y Coleg yn dibynnu ar y berthynas agored, gadarn a dwyochrog hon.

Mae'r Coleg fel cwmni ac elusen hefyd yn adrodd drwy Dŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau.

Cyflenwyr

Mae ein perthynas gref â chyflenwyr yn sicrhau parhad ein gweithrediadau a'n gallu i wasanaethu ein rhanddeiliaid i'r safonau uchaf posibl. Mae hyn yn cynnwys cyflenwyr cynnyrch a gwasanaethau ar draws ein gwasanaethau addysg, perfformio cyhoeddus a lleoliadau a gwasanaethau masnachol eraill. Rydym yn trin ein cyflenwyr yn deg ac yn eu talu o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt a bob amser yn ymddwyn yn broffesiynol ac yn unol â'r safonau uchaf posibl. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n cyflenwyr i sicrhau bod ganddynt reolaethau effeithiol ar waith i amddiffyn iechyd a diogelwch ein myfyrwyr (a rhanddeiliaid os yw'n berthnasol) a diogelwch a phreifatrwydd eu data.

Cymunedau a'r amgylchedd

Rydym yn brysur yn ein cymunedau, ac rydym wedi amlinellu rhai o uchafbwyntiau'r flwyddyn ddiwethaf yn adran 6 yr adroddiad hwn.

Rydym yn cydnabod yr argyfwng hinsawdd byd-eang ac wedi ymuno â'r nifer o sefydliadau ledled y byd sy'n galw am weithredu ar frys i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Yn benodol rydym wedi

addo bod yn 100% carbon niwtral erbyn 2040 - ynghynt os gallwn - ac yn y flwyddyn i ddod byddwn yn rhannu llwybr carbon cynhwysfawr er mwyn i'r Coleg esbonio'r camau rydym yn eu cymryd i gyflawni'r adduned hwn. Rydym hefyd wedi ymuno â'r Ras i Sero, gan danlinellu ein hymrwymiad i adferiad digarbon iach a gwydn.

4.3. Adrodd ar Ynni a Charbon

Data allyriadau nwy tŷ gwydr a defnydd ynni y DU ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2021:

	2020/21	2019/20
Defnydd ynni a ddefnyddiwyd i gyfrifo allyriadau (kWh)	2,262,000	2,298,000
Cwmpas 1: allyriadau mewn tunelli metrig CO₂e		
Defnydd nwy	268	233
Trafnidiaeth ein hun	7	8
Cwmpas 2: allyriadau mewn tunelli metrig CO₂e		
Trydan a brynwyd	232	326
Cwmpas 3: allyriadau mewn tunelli metrig CO₂e		
Trafnidiaeth ein hun	14	9
Teithio busnes mewn cerbydau sy'n eiddo i gyflogaion	22	22
Cyfanswm allyriadau gros - tunelli metrig CO₂e	543	598
Cymhareb dwyster – tunelli CO ₂ e fesul myfyriwr	0.64	0.71

Cymhwyster a methodoleg adrodd

Rydym wedi dilyn canllawiau Adrodd Amgylcheddol Llywodraeth EM 2019. Rydym hefyd wedi defnyddio Protocol Adrodd Nwyon Tŷ Gwydr - Safon Gorfforaethol ac wedi defnyddio ffactorau trosi Llywodraeth y DU 2020 ar gyfer Adrodd gan Gwmnïau.

Mesur dwyster

Y gymhareb mesur dwyster a ddewisir yw cyfanswm yr allyriadau gros mewn tunelli metrig Co₂e fesul myfyriwr, sef y gymhareb a argymhellir ar gyfer y sector.

Mesurau a gymerwyd i wella effeithlonrwydd ynni

Ers 2018 mae holl drydan y Coleg wedi dod o ffynonellau adnewyddadwy gwyrdd ac mae LED wedi disodli dros 60% o'r gosodiadau goleuadau confensiynol. Yn 2021 mae'r Coleg wedi dechrau disodli cerbydau tanwydd disel y fflyd â fersiynau hybrid.

4.4. Prif risgiau ac ansicrwydd

Mae'r Coleg wedi nodi nifer o risgiau strategol lefel uchel y mae'n eu monitro yn rheolaidd. Mae'r rhain yn cynnwys:

Recriwtio a chadw myfyrwyr

Mae cynllun strategol y Coleg yn targedu twf blynyddol yn ei lefel bresennol o niferoedd myfyrwyr gradd ac ôl-radd a myfyrwyr tramor tra'n sicrhau bod ansawdd myfyrwyr yn parhau i fod yn uchel. Mae'r Coleg wedi datblygu camau gweithredu manwl ynghyd â system o bartneriaethau gwell a

strategaeth fuddsoddi i gefnogi'r cynlluniau hyn. Mae rheolaethau cryf ar waith sy'n cynnwys goruchwyliaeth gan y Weithrediaeth a gwaith agos rhwng y timau academiaidd a marchnata.

Codi arian

Mae cefnogaeth Ymddiriedolaethau a Sefydliadau, cyllidwyr cyhoeddus, busnesau ac unigolion yn parhau i fod yn hanfodol i gynnig cyfleoedd hyfforddi a pherfformio newydd i fyfyrwyr a sicrhau bod yr artistiaid ifanc mwyaf talentog yn gallu fforddio cost hyfforddiant. Lansiwyd ymgyrch codi arian newydd, "Promise Addewid" ym mis Medi 2021 a disgwylir iddi fod yn gyfrannwr pwysig ar gyfer hyn yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

Cynhyrchu incwm

Collwyd mwyafrif yr incwm o weithgareddau masnachol yn 2020/21 o ganlyniad uniongyrchol i bandemig Covid-19. Rydym wedi ailgychwyn y gweithgareddau hyn yn ofalus ers mis Medi 2021 ac mae ymateb cychwynnol ein cwsmeriaid a'n cynulleidfaoedd masnachol ffyddlon rheolaidd yn rhoi hyder rhesymol i'r Ymddiriedolwyr y gall yr incwm hwn adfer yn gyflym ac yn gryf cyn belled ag y gall y cyfyngiadau barhau i lacio.

4.5. Difidendau

Nid yw'r Cyfarwyddwyr yn argymhell talu difidend parthed y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 (2020 – dim).

4.6. Busnes gweithredol

Mae gweithgareddau'r Coleg, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei ddatblygiad a'i berfformiad yn y dyfodol wedi'u nodi yn adroddiad yr Ymddiriedolwyr (sy'n cynnwys yr Adroddiad Strategol). Cyflwynir sefyllfa ariannol y Coleg, ei lif arian, ei hylifedd a'i fenthyciadau yn y Datganiadau Ariannol a'r Nodiadau cysylltiedig.

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol y mae'r cyfarwyddwyr yn eu hystyried yn briodol am y rhesymau canlynol.

Mae'r cyfarwyddwyr wedi paratoi rhagolygon llif arian am gyfnod sydd o leiaf ddeuddeg mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn. Ar ôl adolygu'r rhagolygon hyn, mae'r cyfarwyddwyr o'r farn, gan ystyried anfanteision difrifol ond credadwy, sy'n cynnwys effeithiau parhaus COVID-19, y bydd gan y Coleg ddigon o arian drwy gyllid gan ei riant uniongyrchol, Prifysgol De Cymru, os bydd angen i gyflawni ei rwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus dros y cyfnod o ddeuddeg mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol (y cyfnod asesu busnes gweithredol). Fel gydag unrhyw gwmni sy'n dibynnu ar endidau grŵp arall am gymorth ariannol, mae'r cyfarwyddwyr yn cydnabod y gallai fod dim sicrwydd y bydd y gefnogaeth hon yn parhau er, ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn, nid oes ganddynt reswm i gredu na fydd hyn yn digwydd.

Ar hyn o bryd mae'r cyfarwyddwyr yn trafod gyda Barclays i gwblhau diwygiadau i rai cyfamodau perfformiad ariannol sydd ynghlwm wrth y benthyciad gwarantedig, a fydd yn galluogi'r Coleg i barhau i dyfu heb dorri unrhyw un o'r amodau hyn. Mae'r banc wedi cytuno mewn egwyddor i'r gwelliannau ac mae'r cyfarwyddwyr yn hyderus y bydd y cytundeb benthyciad newydd gyda Barclays yn cael ei lofnodi yn y dyfodol agos.

O ganlyniad, mae'r cyfarwyddwyr yn hyderus y bydd gan y Coleg ddigon o arian i barhau i gyflawni ei rwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus am o leiaf ddeuddeg mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ac felly maent wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

4.7. Datganiad Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol

Ymrwymiad i Arfer Gorau mewn Llywodraethu

Mae'r Coleg yn ymdrechu i'r gwaith llywodraethu gael ei wneud mewn modd agored ac atebol, a'i nod yw cydymffurfio ag arfer gorau yn y sector addysg uwch. Mae'r crynodeb hwn yn disgrifio sut mae egwyddorion perthnasol llywodraethu corfforaethol yn cael eu cymhwyso i'r Coleg.

Mae Bwrdd Cyfarwyddwyr Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru Cyf yn atebol i Fwrdd Prifysgol De Cymru, sef unig 'aelod' y Coleg. Mae pwyllgorau Bwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol yn gweithredu fel pwyllgorau ar gyfer Byrddau Cyfarwyddwyr y Coleg ac eithrio i'r graddau bod gan y Coleg ei drefniadau ei hun.

Y Bwrdd Cyfarwyddwyr sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod system gadarn o reoli risg, rheolaeth a llywodraethu ar waith. Mae'r cyfarwyddwyr yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwn drwy'r elfennau canlynol:

- Adolygiad effeithiol gan Fwrdd y Coleg a phwyllgorau perthnasol ac Archwiliad.
- Systemau rheolaeth sy'n cynnwys polisiau, amcanion a chynlluniau, rheoli risgiau a chyfleoedd allweddol, monitro perfformiad ariannol a gweithredol, diogelu asedau yn ffisegol, gwahanu dyletswyddau, gweithdrefnau awdurdodi a chymeradwyo, a systemau gwybodaeth.
- Swyddogaeth archwilio mewnol ac allanol effeithiol.
- Nodi a rheoli risg sy'n rhan o bob system fusnes
- Parch at God Llywodraethu Pwyllgor Cadeiryddion y Brifysgol.

Nodir isod ddull y Coleg ar gyfer rheoli risg yn effeithiol:

- Ffocws ar reoli risg yn weithredol fel rhan annatod o'r broses reoli ym mhob rhan o'r sefydliad.
- Nodi'n glir y risgiau o wahanol fathau i gyflawni ei amcanion. Gall y risgiau hyn fod yn strategol neu'n weithredol a gallant arwain at oblygiadau posibl i enw da'r Coleg, ei sefyllfa ariannol neu ei weithrediadau o ddydd i ddydd neu unrhyw gyfuniad o'r rhain.
- Annog pob rheolwr i ystyried goblygiadau risg pob penderfyniad, contract neu brosiect mawr fel rhan arferol o'u gwaith pob dydd.
- Integreiddio rheoli risg i'r broses gynllunio flynyddol a dyna sut mae'r Weithrediaeth yn penderfynu ac yn cydlynu gweithgareddau'r Coleg.
- Mae'r Pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn ceisio nodi a chanolbwyntio ar risgiau uniongyrchol a dros dro gyda goblygiadau strategol, a allai newid o wythnos i wythnos, yn ogystal ag ar y risgiau mwy sylweddol a pharhaol a nodir yng nghofrestr risg y Coleg.
- Disgwylir i reolwyr gysylltu adnabod risg â gweithredu, p'un ai wrth liniaru'r risg neu mewn ymateb iddi.
- Mae'r Pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn gweithio gyda rheolwyr y Coleg a'u timau i annog a chefnogi rheoli risg yn effeithiol fel rhan o reolaeth y sefydliad o ddydd i ddydd, ac yn benodol i'w helpu i nodi, gwerthuso, rheoli ac adrodd ar risgiau.
- Mae'r gofrestr risg yn nodi risgiau sylweddol ac yn cynnwys manylion am y canlynol:
 - natur y risg
 - ei heffaith bosibl
 - y tebygolrwydd y bydd y risg yn dod yn ffaith
 - 'perchennog' y risg
 - y prosesau sy'n rheoli'r risg

- Mae Bwrdd y Coleg wedi cytuno â'i archwilwyr mewnol y bydd eu rhaglen waith a'r dull ar gyfer rheolaeth fewnol yn seiliedig ar risg: mae hyn yn cynnwys risgiau busnes, gweithredol a chydymffurfiaeth yn ogystal â risg ariannol
- Bydd Pwyllgor Archwilio Prifysgol De Cymru yn adolygu digonolrwydd y broses rheoli risg yn y Coleg yn rheolaidd wrth iddi barhau i gael ei datblygu

Mae'r Bwrdd o'r farn bod yna broses barhaus ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol y Coleg, ei bod wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 ac ar waith hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiadau Ariannol ac Adolygiad Blynnyddol, ei bod yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y Bwrdd a'i bod yn unol â'r canllawiau rheolaeth fewnol ar gyfer cyfarwyddwyr ar God Llywodraethu Corfforaethol y DU fel y'i diwygiwyd gan Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Prifysgolion Prydain.

Bwrdd y Cyfarwyddwyr a'i is-bwyllgorau

Cyfarfu'r Bwrdd Cyfarwyddwyr bump o weithiau yn ystod y flwyddyn adrodd. O ran trefniadau archwilio, er nad oes Pwyllgor Archwilio ar wahân wedi'i sefydlu ar gyfer y Coleg, mae Pwyllgor Archwilio Prifysgol De Cymru yn derbyn yn ffurfiol yr holl adroddiadau ac adolygiadau archwilio a gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r Cwmni a bydd y Pwyllgor hwn yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn ac yn gweithredu fel Pwyllgor Archwilio Bwrdd y Coleg. Ystyriwyd adroddiad blynnyddol 2020/21 yr archwilwyr mewnol gan Bwyllgor Archwilio'r Brifysgol a Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg, a gymeradwydd y cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2020/21 hefyd.

4.8. Datganiad datgelu gwybodaeth i archwilwyr

Yn achos pob Cyfarwyddwr oedd mewn swydd ar y dyddiad cymeradwyo Adroddiad y Cyfarwyddwyr, mae'r canlynol yn berthnasol;

- (a) cyn belled bod yr ymddiriedolwr yn ymwybodol, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol ohoni
- (b) mae ef/hi wedi cymryd pob cam y dylai fod wedi'u cymryd fel ymddiriedolwr er mwyn gwneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

4.9. Indemnïadau'r Cyfarwyddwyr

Fe wnaeth y Cwmni brynu a chynnal drwy gydol y flwyddyn ariannol yswiriant atebolrwydd Cyfarwyddwyr a Swyddogion parthed ei hun a'i Gyfarwyddwyr. Roedd hyn hefyd mewn grym ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynnyddol a datganiadau ariannol.

4.10. Archwilwyr Annibynnol

Penodwyd yr archwilwyr, KPMG LLP, ym mis Mai 2020 ac maent wedi nodi eu parodrwydd i barhau yn y swydd, a bydd penderfyniad yn ymwneud â'u hailbenodi yn cael ei gynnig yng nghyfarfod y Bwrdd yn y dyfodol.

Drwy orchymyn y Bwrdd



W D Callaway
Ysgrifennydd Cwmni

30 Tachwedd 2021

5. Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â chyfraith a rheoliadau cymwys.

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno mae'n ofynnol iddynt baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Safonau Cyfrifyddu'r DU a'r gyfraith berthnasol (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y DU), gan gynnwys FRS 102 *Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon*.

O dan gyfraith cwmnïau rhaid i'r cyfarwyddwyr beidio â chymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi golwg gywir a theg ar sefyllfa'r cwmni elusennol ac o'r incwm a'r gwariant am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu defnyddio'n gyson
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarvoudus
- nodi a ddilynwyd Safonau Cyfrifyddu y DU priodol a'r Datganiad o Arfer a Argymhellir, yn ddarostyngedig i unrhyw amrywiadau perthnasol a ddatgelir ac a eglurir yn y datganiadau ariannol
- asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol
- defnyddio cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol oni bai eu bod naill ai'n bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu roi'r gorau i weithrediadau, neu os nad oes ganddynt ddewis arall realistig ond gwneud hynny

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n dangos ac yn egluro trafodion y cwmni elusennol a datgelu sefyllfa ariannol y cwmni elusennol gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent yn gyfrifol am unrhyw reolaeth fewnol y maent yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, p'un ai oherwydd twyll neu wall, ac mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol am gymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol agored iddynt i ddiogelu asedau'r cwmni elusennol ac i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw a chywirdeb y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd wedi'i chynnwys ar wefan y cwmni elusennol. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n llywodraethu paratoi a lledaeniad datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

6. Amcanion a gweithgareddau er budd y cyhoedd

6.1. Amcanion Elusennol

Mae'r Coleg yn hyrwyddo datblygiad addysg a dysgu er budd y cyhoedd, yn benodol hyfforddiant perfformwyr ac eraill ym meysydd cerddoriaeth, drama a'r theatr, drwy ddarpariaeth cyrsiau hyfforddiant uwch, gan arwain at ddyfarnu graddau a chymwysterau priodol eraill. Mae hefyd yn darparu, cynnal a gwella cyfleusterau perfformio er budd y gymuned leol.

Trwy ddarparu hyfforddiant o ansawdd uchel, mae'r Coleg yn ceisio cynhyrchu graddedigion sy'n rhugl ac arloesol yn eu ffurfiau celfyddyd, a darparu gweithlu hynod fedrus i'r diwydiannau cerddoriaeth a theatr a fydd yn gallu cynrychioli Cymru ar y llwyfan byd-eang. Mae'r Coleg yn gwneud cyfraniad sylweddol i fywyd diwylliannol ac artistig Cymru a thu hwnt.

6.2. Cyflawni Amcanion Elusennol

Buddiolwyr:

Mae gan y Coleg boblogaeth myfyrwyr addysg uwch o ychydig dros 800 o fyfyrwyr, y mae 81% ohonynt yn rhai Cartref/UE ac 19% o Dramor. Y myfyrwyr hynny yw'r prif fuddiolwyr sy'n derbyn hyfforddiant o ansawdd uchel mewn ystod o ddisgyblaethau celfyddydau perfformio. Mae buddiolwyr eraill yn amrywio i fyfyrwyr iau (o bedair oed i fyny) yn ogystal â chyflogwyr a busnesau yn y sector diwydiannau creadigol sy'n cyflogi cyfran uchel o raddedigion y Coleg. Mae'r cyhoedd yn mynychu dros 500 o berfformiadau cyhoeddus y flwyddyn gan gynnwys cyngherddau am ddim a gweithgareddau addysgol a diwylliannol eraill yn y Coleg, megis arddangosfeydd, dosbarthiadau meistr a sgysiau.

Polisi mynediadau:

Mae'r Coleg yn ceisio recriwtio'r myfyrwyr mwyaf galluog a thalentog, yn ogystal â'r rhai sy'n dangos potensial eithriadol waeth beth fo'u cefndir. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2025 y Coleg yn cynnwys amcan craidd i "ddenu, dewis a chadw ystod amrywiol o fyfyrwyr i astudio yn y Coleg a chreu amgylchedd sy'n annog ac yn cefnogi'r holl fyfyrwyr i ymgysylltu'n weithredol ac i wireddu eu potensial yn llawn". Yn ei raglenni gradd mae'r galw am leoedd yn uchel ac fel rheol dewisir myfyrwyr drwy gyfweiliad, clyweliad neu gyflwyniad portffolio.

6.3. Datganiad Budd y Cyhoedd

Bwrsariaethau, ysgoloriaethau a chymorth ariannol:

Er mwyn cefnogi myfyrwyr sy'n profi caledi ariannol, gall y Coleg gynnig cymorth ariannol drwy fwrsariaethau a rhoddion dyngarol a dderbynnir o ffynonellau allanol.

Mae canran uchel o fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar raglenni cerddoriaeth iau ac actorion ifanc y Coleg yn derbyn cymorth bwrsariaeth er mwyn iddynt allu cyrchu hyfforddiant y Coleg, waeth beth fo'u hangen ariannol. Mae'r Coleg yn sicrhau'r cymorth bwrsariaeth hwn o gyfuniad o gronfeydd cyhoeddus, ymddiriedolaethau, sefydliadau, busnesau a rhoddwyr dyngarol.

Mae'r Coleg yn gweithredu nifer cyfyngedig o ysgoloriaethau fel modd o ddenu'r myfyrwyr mwyaf dawnus er mwyn sicrhau carfanau cytbwys o fyfyrwyr i alluogi hyfforddiant mewn ensembles craidd cydnabyddedig. Cynigir ysgoloriaethau ar sail rhagoriaeth ac angen (h.y. angen ariannol yr ymgeisydd).

Datblygu a chodi arian:

Mae'r Coleg yn cyflogi tîm codi arian (sy'n gyfwerth â 5.2 aelod staff llawn amser) i gynhyrchu incwm sector preifat gan unigolion, busnesau, ymddiriedolaethau a sefydliadau, a digwyddiadau codi arian, i helpu i gefnogi cronfeydd craidd, ysgoloriaethau a phrosiectau cyfyngedig eraill. Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru wedi'i gofrestru gyda'r Rheoleiddiwr Codi Arian ac felly mae'n ofynnol iddo nodi yn yr adroddiad hwn na dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â chodi arian. Ar draws yr holl weithgarwch codi arian mae'r Coleg yn cadw at y Cod Ymarfer Codi Arian, gan gynnwys y canllawiau mewn perthynas â rhoddwyr bregus.

Unwaith eto, cafodd y Coleg flwyddyn gref o ran incwm codi arian, yn enwedig yn erbyn cefndir y pandemig. Mae sicrhau incwm ar gyfer ysgoloriaethau yn parhau i fod yn flaenoriaeth benodol i alluogi mynediad, cefnogi angen ariannol ac, wrth wneud hynny, sicrhau mwy o amrywiaeth yn ein cymuned myfyrwyr. Roeddem yn falch iawn fod Badwolf, ochr yn ochr â'i ysgoloriaeth o'r fenter Celfyddydau Cynhyrchu Pobl Ifanc, wedi adnewyddu ei gefnogaeth ar gyfer ysgoloriaeth amrywiaeth. Cyfatebwyd hyn gan Celfyddydau a Busnes Cymru i ddarparu dwy wobwr arall i wella amrywiaeth ethnig y rhai sy'n dechrau ar ein hyfforddiant ac, yn eu tro, y diwydiannau creadigol. Cynigiodd Sefydliad Andrew Lloyd Webber ysgoloriaeth newydd i gefnogi myfyriwr ar ein rhaglen gradd Theatr Gerddorol, a ddechreuodd ym mis Medi 2021, yn ychwanegol at yr ysgoloriaeth ôl-radd ffioedd llawn y mae eisoes yn ei darparu. Mae Ymddiriedolaeth Leverhulme yn parhau i ddarparu grant mawr i gefnogi ysgoloriaethau ar draws sawl cwrs gradd ac ôl-radd yn ogystal â bwrsariaethau Colegau Iau.

Parhawyd i gynhyrchu cefnogaeth i Gronfa Caledi Myfyrwyr y Coleg er mwyn helpu myfyrwyr sy'n wynebu caledi ariannol oherwydd y pandemig a derbyniwyd y rhoddion cyntaf i Gronfa Bwrsariaeth newydd y Coleg, a fydd yn darparu cefnogaeth o hyd at £1,200 y flwyddyn ar gyfer myfyrwyr gradd blwyddyn gyntaf o'r DU sydd ag incwm cartref is na £30,000 y flwyddyn, o'r flwyddyn academiaidd 21-22.

Derbyniwyd dau grant sylweddol gan Gyngor Celfyddydau Cymru - o ail rownd y Gronfa Adferiad Diwylliannol a'r Cynllun Cysylltu a Ffynnu - ynghyd ag ail randaliad rhodd fawr gan Ymddiriedolaeth Carne i ariannu sawl datblygiad strategol dros y cyfnod i ddod. Derbyniwyd rhodd etifeddiaeth sylweddol gan Ystad Phoebe Ida Phillips ac mae gwaith yn parhau i gael ei wneud i ddenu addunedau ar gyfer rhoddion etifeddiaeth newydd.

Lansiwyd rhaglen rhoi reolaidd newydd – Cylch y Cadeirydd - i gynhyrchu incwm newydd digyfngiad i'r Coleg a denu rhoddwyr a dyngarwyr newydd i gymuned y Coleg. Hoffai'r Coleg ailddatgan ei ddiolch i bob aelod newydd o Gylch y Cadeirydd, i aelodau cynlluniau Cyswllt a Chyswllt Cyfeillion, i'r rheini sydd wedi addunedu rhodd etifeddiaeth, yn ogystal â'r lluo o unigolion, ymddiriedolaethau busnes ac elusennol sy'n cefnogi ysgoloriaethau, bwrsariaethau, prosiectau arbennig, gwobrau a gweithgareddau Coleg a myfyrwyr eraill. Gellir gweld rhestr lawn o'r cefnogwyr ar wefan y Coleg: <https://www.rwcmd.ac.uk/support-us/thank-you>.

Ehangu Cyfranogiad

Un o'r prif gyfryngau ar gyfer cyflawni gweithgarwch ehangu cyfranogiad y Coleg yw ei raglenni hyfforddi iau ar gyfer cerddorion, actorion ac artistiaid cynhyrchu ifanc, yn ogystal â rhaglen ymgysylltu â'r gymuned eang sy'n cynnwys cyfres flynyddol o weithdai ysgolion, cynllun gwersi cymunedol a chyfres o weithdai hygyrch a ddarperir yn y Coleg ac yn y gymuned.

Dychwelodd y Conservatoire Iau a Stiwdio Actorion Ifanc yn ôl i hyfforddiant wyneb yn wyneb yn nhymor yr Hydref 2020, gan addasu cyrsiau yn unol ag ystod gynhwysfawr o brotocolau diogelwch C-19. Yn y Conservatoire Iau, roedd tymor cyntaf clyweliadau ar-lein yn boblogaidd, gan arwain at dri deg pump o fyfyrwyr newydd ar y Cwrs Uwch a chynnydd gan 15% yn nifer y myfyrwyr yn gyffredinol. Roedd y Stiwdio Actorion Ifanc yn rhedeg gyda niferoedd llawn yn unol â rheoliadau Covid-19.

Symudodd holl gyrsiau'r Conservatoire Iau a'r Stiwdio Actorion Ifanc ar-lein am y rhan fwyaf o dymor y Gwanwyn oherwydd bod rheolau clo Haen 4 mewn grym yng Nghymru. Gweithiodd staff a myfyrwyr yn ddiflino i sicrhau parhad llawn dysgu ac addysgu a chyflwyno tymor a oedd yr un mor brysur, llwyddiannus a difyr ag y gallai fod. Yn nhymor y Gwanwyn cynhaliwyd cyfres o weithdai ysgolion fel rhan o dri phrosiect llawn dychymyg ac arloesol a gafodd eu hail-ddychmygu i'w cyflwyno ar-lein gan fyfyrwyr gradd a'u tiwtoriaid: cyfres gweithdai cerddoriaeth 'Synced', Opera Ysgolion a Gweithdai Cerddoriaeth Greadigol. Cyflwynwyd prosiectau mewn pedair ar ddeg o ysgolion cynradd a oedd wedi'u lleoli'n bennaf mewn ardaloedd WIMD 1 neu 2 lleol ac a oedd wedi aros ar agor yn ystod y cyfnod clo Haen 4 i gefnogi plant bregus a phlant gweithwyr hanfodol.

Ym mis Gorffennaf 2021, unwaith eto cyflwynodd ein hysgolion haf raglen Celfyddydau Cynhyrchu Pobl Ifanc, Gweithdy Theatr Stiwdio Actorion Ifanc a gwersyll haf tridiau Celfyddydau Creadigol a ariannwyd gan First Campus a gynhaliwyd yn benodol ar gyfer gofalcwyr ifanc neu'r rheini â phrofiad o ofal. Roedd y gweithdai yn cynnwys cerddoriaeth, celfyddydau cynhyrchu a drama ac yn arwain at rannu gwaith yn anffurfiol yn Neuadd Dora Stouzer y Coleg.

Mae'r Coleg yn parhau i weithio'n agos gydag ystod o grwpiau anabledd yn y celfyddydau gan gynnwys Cynrychiadau UCAN a Cherddorfeydd Ieuentid Agored Cenedlaethol i sicrhau bod ein haddysg a'n hyfforddiant yn paratoi myfyrwyr conservatoire ar gyfer anghenion amrywiol y diwydiannau creadigol y byddant yn mynd iddynt wedi graddio.

Ymgysylltu â'r Gymuned

Er bod y Coleg ar gau i gynulleidfaoedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn academaidd hon, gwnaethom ddefnyddio ein gallu newydd ar gyfer ffrydio ar-lein i ddarlledu rhaglen helaeth o dros 100 o berfformiadau a chynrychiadau am ddim a thrwy docyn gan fyfyrwyr ac artistiaid ar ymweliad. Roedd y rhain yn cynnwys 16 o ffilmiau a chynrychiadau drama, 32 o berfformiadau AmserJazzTime a ddarlledwyd yn fyw o Gyntedd Carne ac am ddim i'w gwyllo ar YouTube, a 9 o ddatganiadau piano a llais wedi'u ffrydio fel rhan o gyfres #YnFywOrDora a oedd ar gael am ddim i gartrefi gofal ledled Cymru. Fe wnaethom hefyd gynhyrchu ein gwyliau Awyrgylch ac AmserJazzTime fel digwyddiadau digidol.

Trwy'r flwyddyn, cawsom dros 40,000 o wylwyr ar draws darllediadau am ddim a thrwy docyn.

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Fwrdd Llywodraethwyr Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cyfyngedig

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru Cyfyngedig ("y cwmni elusennol") ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 sy'n cynnwys y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiâu cyfrifyddu yn nodyn 2.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi golwg gywir a theg o gyflwr sefyllfa'r cwmni elusennol ar 31 Gorffennaf 2021 a'i adnoddau sy'n dod i mewn a defnydd o adnoddau, gan gynnwys ei incwm a'i wariant, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu'r DU, gan gynnwys FRS 102 *Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon*
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Sail ar gyfer barn

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) ("ISAs (UK)") a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau isod. Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol o dan, ac rydym yn annibynnol ar y cwmni elusennol yn unol â, gofynion moesegol y DU gan gynnwys Safon Foesegol FRC. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn rhoi sail ddigonol a phriodol ar gyfer ein barn ni.

Busnes gweithredol

Mae'r cyfarwyddwyr wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol gan nad ydynt yn bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu roi'r gorau i'w weithrediadau, a chan eu bod wedi dod i'r casgliad bod sefyllfa ariannol y cwmni elusennol yn golygu bod hyn yn realistig. Maent hefyd wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol a allai fod wedi bwrw amheuaeth sylweddol ynglŷn â'i allu i barhau fel busnes gweithredol am o leiaf blwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ("y cyfnod busnes gweithredol").

Yn ein gwerthusiad o gasgliadau'r cyfarwyddwyr, gwnaethom ystyried y risgiau cynhenid i fodel busnes y cwmni elusennol a dadansoddi sut y gallai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol y cwmni elusennol neu ei allu i barhau â gweithrediadau dros y cyfnod busnes gweithredol.

Ein casgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn:

- rydym o'r farn bod defnydd y cyfarwyddwyr o sail busnes gweithredol cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol
- nid ydym wedi nodi, ac rydym yn cytuno ag asesiad y cyfarwyddwyr nad oes, ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol ar gyfer y cyfnod busnes gweithredol.

Fodd bynnag, gan na allwn ragweld pob digwyddiad neu amgylchiadau yn y dyfodol ac oherwydd y gallai digwyddiadau dilynol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â dyfarniadau a oedd yn rhesymol ar

yr adeg y cawsant eu gwneud, nid yw'r casgliadau uchod yn sicrwydd y bydd y cwmni elusennol yn parhau i weithredu.

Twyll a thorri cyfreithiau a rheoliadau - y gallu i ganfod

Nodi ac ymateb i risgiau camddatganiad perthnasol oherwydd twyll

Er mwyn nodi risgiau camddatganiad perthnasol oherwydd twyll ("risgiau twyll") gwnaethom asesu digwyddiadau neu amodau a allai ddynodi cymhelliant neu bwysau i gyflawni twyll neu roi cyfle i gyflawni twyll. Roedd ein gweithdrefnau asesu risg yn cynnwys:

- Ymholi'r cyfarwyddwyr ynglŷn â pholisïau a gweithdrefnau lefel uchel y cwmni i atal a chanfod twyll a phroses y cwmni ar gyfer "chwythu'r chwiban", yn ogystal ag a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheus neu honedig
- Darllen cofnodion y Bwrdd
- Defnyddio gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw berthnasodd anarferol neu annisgwyl

Gwnaethom gyfathrebu risgiau twyll a nodwyd drwy'r tîm archwilio i gyd a pharhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll drwy gydol yr archwiliad.

Fel sy'n ofynnol gan safonau archwilio, a gan roi ystyriaeth i bwysau posibl i fodloni cyfamodau benthyciad, rydym yn cynnal gweithdrefnau i fynd i'r afael â'r risg o reoli yn diystyru rheolaethau a'r risg o gydnabod refeniw twyllodrus, yn enwedig y risg bod incwm ffioedd dysgu yn cael ei gofnodi yn y cyfnod ariannol anghywir, rhoi cyfrif anghywir am incwm codi arian a'r risg y gallai rheolwyr y cwmni fod mewn sefyllfa i wneud cofnodion cyfrifyddu amhriodol.

Ni wnaethom nodi unrhyw risgiau twyll ychwanegol.

Wrth benderfynu ar y gweithdrefnau archwilio, rhoesom ystyriaeth i ganlyniadau ein gwerthusiad a'n profion ar effeithiolrwydd gweithredol rheolaethau rheoli risg twyll ledled y cwmni

Gwnaethom hefyd gynnal gweithdrefnau a oedd yn cynnwys:

- Nodi cofnodion trafodion ac addasiadau eraill i'w profi yn seiliedig ar feini prawf risg a chymharu'r cofnodion a nodwyd â dogfennaeth ategol. Roedd y rhain yn cynnwys trafodion a wnaed i gyfrifon anghysylltiedig, y rhai a wnaed i gyfrifon anarferol neu rai nas defnyddir yn aml, cofnodion sy'n cynnwys geiriau penodol yn y disgrifiad a phostiadau a wneir gan unigolion nad ydynt fel rheol yn gwneud cofnodion trafodion
- Roedd archwilio derbyniadau arian parod yn y cyfnod cyn ac ar ôl 31 Gorffennaf 2021 i wirio incwm ffioedd dysgu wedi'i gydnabod yn y cyfnod cyfrifyddu cywir
- Profi sampl o refeniw codi arian i asesu a roddwyd cyfrif priodol amdano yn unol ag amodau a chyfyngiadau perthnasol o ran perfformiad

Nodi ac ymateb i risgiau camddatganiad perthnasol oherwydd diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau

Gwnaethom nodi meysydd cyfreithiau a rheoliadau y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol o'n profiad masnachol a sector cyffredinol, a thrwy drafod gyda'r cyfarwyddwyr (fel sy'n ofynnol gan safonau archwilio), o archwilio gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol

y cwmni a gwnaethom drafod gyda'r cyfarwyddwyr y polisïau a'r gweithdrefnau o ran cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.

Gwnaethom gyfathrebu cyfreithiau a rheoliadau a nodwyd ledled ein tîm a pharhau'n effro i unrhyw arwyddion o ddiffyg cydymffurfio drwy gydol yr archwiliad.

Mae effaith bosibl y cyfreithiau a'r rheoliadau hyn ar y datganiadau ariannol yn amrywio'n sylweddol.

Mae'r cwmni'n ddarostyngedig i gyfreithiau a rheoliadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol gan gynnwys deddfwriaeth adrodd ariannol (gan gynnwys deddfwriaeth cwmnïau cysylltiedig), deddfwriaeth elusennau, deddfwriaeth elw dosbarthadwy, deddfwriaeth trethiant a deddfwriaeth pensiynau a gwnaethom asesu i ba raddau y cydymffurfiwyd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn fel rhan o'n gweithdrefnau ar yr eitemau datganiad ariannol cysylltiedig.

Er bod y cwmni'n ddarostyngedig i lawer o gyfreithiau a rheoliadau eraill, ni wnaethom nodi unrhyw rai eraill lle gallai canlyniadau diffyg cydymffurfio yn unig gael effaith berthnasol ar symiau neu ddatgeliadau yn y datganiadau ariannol.

Cyd-destun gallu'r archwiliad i ganfod twyll neu dorri cyfraith neu reoliad

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliad, mae yna risg na ellir ei hosgoi na fyddwn efallai wedi canfod rhai camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio a chynnal ein harchwiliad yn unol â safonau archwilio. Er enghraifft, po bellaf yw'r diffyg cydymffurfiaid â chyfreithiau a rheoliadau o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, y lleiaf tebygol yw y byddai'r gweithdrefnau cynhenid cyfyngedig sy'n ofynnol gan safonau archwilio yn ei ganfod.

Yn ogystal, fel gydag unrhyw archwiliad, roedd risg uwch o beidio â chanfod twyll, gan y gallai'r rhain gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgor bwriadol, cam-gyflwyno, neu ddiystyru rheolaethau mewnol. Mae ein gweithdrefnau archwilio wedi'u cynllunio i ganfod camddatganiad perthnasol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfio neu dwyll ac ni ellir disgwyl i ni ganfod diffyg cydymffurfio â'r holl gyfreithiau a rheoliadau.

Gwybodaeth arall

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am y wybodaeth arall, sy'n cynnwys Adroddiad Blyneddol yr Ymddiriedolwyr. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmparu'r wybodaeth arall ac, yn unol â hynny, nid ydym yn mynegi barn archwilio nac, ac eithrio fel y nodir yn benodol isod, unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arnynt.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth ynddi, ar sail ein gwaith archwilio datganiadau ariannol, wedi'i gam-ddatgan yn sylweddol neu'n anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth archwilio. Yn seiliedig yn unig ar y gwaith hwnnw:

- nid ydym wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn y wybodaeth arall
- yn ein barn ni, mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad Blyneddol yr Ymddiriedolwyr, sy'n ffurfio'r adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol, yn gyson â'r datganiadau ariannol
- yn ein barn ni, paratowyd yr adroddiad hwnnw yn unol â Deddf Cwmnïau 2006.

Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad

O dan Ddeddf Cwmnïau 2006 mae'n ofynnol i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- nad yw'r cwmni elusennol wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol neu na dderbyniwyd ffurflenni cyfrifo digonol ar gyfer ein harchwiliad gan ganghennau na wnaethom ymweld â hwy; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- na wneir rhai datgeliadau o dâl ymddiriedolwyr a bennir gan y gyfraith; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn eu datganiad a nodir ar dudalen 17, mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi golwg gywir a theg; mae unrhyw reolaeth fewnol y maent yn penderfynu arni yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, p'un ai oherwydd twyll neu wall; asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol; a defnyddio cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol oni bai eu bod naill ai'n bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu roi'r gorau i weithrediadau, neu nad oes ganddynt ddewis arall realistig ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r Archwilydwr

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynglŷn ag a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, p'un ai oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi ein barn mewn adroddiad archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol pe gellir yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd a wneir gan ddefnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol.

Rhoddir disgrifiad llawnach o'n cyfrifoldebau ar wefan FRC yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

Diben ein gwaith archwilio ac i bwy rydym yn gyfrifol

Gwneir yr adroddiad hwn i aelodau'r cwmni elusennol yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 Rhan 16 Deddf Cwmnïau 2006. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio fel y gallem ddatgan wrth aelodau'r cwmni elusennol y materion hynny sy'n ofynnol i ni eu datgan wrthynt mewn adroddiad archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn atebol i unrhyw un heblaw'r cwmni elusennol a'i aelodau, fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, neu am y farn rydym wedi'i llunio.

Rees Batley (Uwch Archwilydd Statudol)

ar gyfer ac ar ran KPMG LLP, Archwilydd Statudol

Cyfrifwyr Siartredig

3 Sgwâr y Cynulliad

Cei Britannia

Caerdydd

CF10 4AX

30 Tachwedd 2021

**Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021**

	Nodyn	2021 £'000	2020 £'000
Incwm			
Ffioedd dysgu a chontractau addysg	3	8,983	8,659
Grantiau cyrff dyfarnu	4	3,998	3,620
Incwm arall	5	1,123	1,128
Incwm o fuddsoddiadau	6	94	141
Cyfanswm incwm cyn gwaddolion a rhoddion		14,198	13,548
Rhoddion a gwaddolion	7	1,051	1,845
Cyfanswm incwm		15,248	15,393
Gwariant			
Costau staff	8	9,642	9,064
Treuliau gweithredu eraill		5,116	4,917
Dibrisiad	11	937	875
Llog a chostau ariannu eraill	9	444	502
Cyfanswm gwariant		16,138	15,359
(Colled)/Gwarged cyn enillion a cholledion eraill		(890)	34
Ennill/(Colled) ar fuddsoddiadau	17	345	(148)
(Colled)/Gwarged ar gyfer y flwyddyn		(544)	(114)
Ennill/(Colled) actiwaraidd o ran cynlluniau pensiwn	23	66	(192)
Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		(478)	(306)
Cynrychiolir gan:			
Incwm/(Gwariant) cynhwysfawr o waddolion ar gyfer y flwyddyn		366	(154)
Incwm/(Gwariant) cynhwysfawr cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn		77	211
Incwm/(Gwariant) cynhwysfawr anghyfyngedig ar gyfer y flwyddyn		(921)	(363)
		(478)	(306)
Mae'r holl eitemau incwm a gwariant yn ymwneud â gweithgareddau			

Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021

	Cyfrif incwm a gwariant			Cronfa ailbrisio wrth gefn	Cyfanswm
	Gwaddol £'000	Cyfyngedig £'000	Anghyfyngedig £'000	£'000	£'000
Balans ar 1 Awst 2020	2,475	1,326	2,212	1,819	7,831
(Diffyg)/Gwarged ar gyfer y flwyddyn Incwm cynhwysfawr arall	366	77	(987) 66	0	(544) 66
Balans ar 31 Gorffennaf 2021	2,840	1,403	1,291	1,819	7,353


Mantolen

ar 31 Gorffennaf 2021

(Rhif Cofrestru Cwmni: 06013744)

	Nodyn	2021 £'000	2020 £'000
Asedau anghyfredol			
Asedau diriaethol	11	24,415	24,917
Asedau treftadaeth	11	500	500
Eraill	11	135	135
		<u>25,050</u>	<u>25,552</u>
Asedau cyfredol			
Symiau derbyniadwy masnach ac eraill	12	146	211
Buddsoddiadau	13	8,189	7,884
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod	24	1,367	2,742
		<u>9,703</u>	<u>10,837</u>
Credydwy'r: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	14	(3,565)	(4,460)
Asedau cyfredol net		<u>6,138</u>	<u>6,378</u>
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol		<u>31,187</u>	<u>31,930</u>
Credydwy'r: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	15	(14,061)	(15,227)
Darpariaethau			
Darpariaethau pensiwn	16	(9,539)	(8,836)
Darpariaethau eraill	16	(234)	(35)
Cyfanswm asedau net		<u>7,354</u>	<u>7,832</u>
Cronfeydd Cyfyngedig Wrth Gefn			
Cronfa incwm a gwariant wrth gefn – cronfa waddol wrth gefn	17	2,837	2,475
Cronfa incwm a gwariant wrth gefn – cronfa wrth gefn gyfyngedig	18	1,404	1,327
Cronfeydd Anghyfyngedig Wrth Gefn			
Cronfa incwm a gwariant wrth gefn - anghyfyngedig		1,292	2,210
Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn		1,819	1,819
		<u>7,353</u>	<u>7,831</u>
Cyfalaf Cyfranddaliad		1	1
Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn		<u>7,354</u>	<u>7,832</u>

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 25 i 44 gan y Bwrdd ar 30 Tachwedd 2021
gan y Bwrdd ar Tachwedd



John Derrick

Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr

Datganiad Llif Arian
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021

	Nodyn	2021 £'000	2020 £'000	
Llif arian o weithgareddau gweithredu (Colled)/Gwarged cyn enillion a cholledion eraill		(890)	34	
Addasiad ar gyfer eitemau sydd ddim yn arian parod				
Dibrisiant	11	937	875	
Ennill/(Colled) ar fuddsoddiadau		(64)	37	
Lleihad mewn dyledwyr	12	65	23	
(Lleihad)/Cynnydd mewn credydwyr	14, 15	(566)	1,263	
Costau Pensiwn LGPS llai cyfraniadau sy'n daladwy		966	664	
Incwm grant cyfalaf	14	(36)	(169)	
Addasiad ar gyfer gweithgareddau buddsoddi neu ariannu				
Incwm o fuddsoddiadau		0	(141)	
Llog sy'n daladwy	9	320	328	
Cyfalaf ar waddolion		(3)	0	
Ariannu tymor byr	14	0	(585)	
		<u>728</u>	<u>2,330</u>	
Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu				
Llifau arian o weithgareddau buddsoddi				
Symudiad mewn buddsoddiadau		104	(44)	
Taliadau a wnaed i gaffael asedau sefydlog		(434)	(423)	
Taliad bond i sicrhau prydles		0	(135)	
Adneuon newydd		3	0	
		<u>(327)</u>	<u>(602)</u>	
Llifau arian o weithgareddau ariannu				
Llog a dalwyd		(320)	(328)	
Ariannu tymor byr		0	585	
Ad-daliadau symiau a fenthyciwyd		(1,456)	(155)	
		<u>(1,776)</u>	<u>102</u>	
Cynnydd/(Lleihad) mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod yn y flwyddyn				
		<u>(1,375)</u>	<u>1,829</u>	
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn	19	2,742	913	
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn	19	1,367	2,742	
Dadansoddiad o newidiadau mewn dyled net				
	Ar 1 Awst 2020 £'000	Llifau arian £'000	Newidiadau eraill £'000	Ar 31 Gorff 2021 £'000
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	2,742	(1,375)	0	1,367
Dyled sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	(1,457)	(1,456)	(1,130)	(1,131)
Dyled sy'n ddyledus o fewn mwy na blwyddyn	(8,046)		1,130	(6,916)
	<u>(6,761)</u>	<u>(2,831)</u>	<u>0</u>	<u>(6,680)</u>

Nodiadau i'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021

1 Sail y Paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol o dan y confensiwn cost hanesyddol, a ddiwygiwyd drwy ailbrizio buddsoddiadau gwaddol, yn unol â Deddf Cwmnïau 2006, fel yr addaswyd i'r Datganiad Arfer Cymeradwy (SORP): Cyfrifyddu mewn Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch 2019 ac yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol. Mae'r Coleg yn endid budd cyhoeddus ac felly mae wedi defnyddio gofyniad budd cyhoeddus perthnasol FRS102, y safon adrodd ariannol sy'n briodol i'r DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102). Mae'r prif bolisiâu cyfrifyddu wedi'u nodi isod ac fe'u defnyddiwyd yn gyson drwy gydol y flwyddyn.

Busnes Gweithredol

Mae gweithgareddau'r Coleg, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei ddatblygiad a'i berfformiad yn y dyfodol, wedi'u nodi yn adroddiad yr Ymddiriedolwyr (sy'n cynnwys y Cynllun Strategol). Cyflwynir sefyllfa ariannol y Coleg, ei lif arian, hylifedd a benthyciadau yn y datganiadau Ariannol a'r Nodiadau sy'n cyd-fynd â hwy.

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol y mae'r Cyfarwyddwyr yn ystyried yn briodol am y rhesymau canlynol.

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi paratoi rhagolygon llif arian am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn. Ar ôl adolygu'r rhagolygon hyn barn y Cyfarwyddwyr yw, o roi ystyriaeth i anfantais difrifol ond tebygol, yn cynnwys effeithiau parhaus COVID-19, y bydd gan y Coleg ddigon o arian drwy gyllido gan ei riant uniongyrchol, Prifysgol De Cymru, os bydd angen cyflawni'i rwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus dros y cyfnod o ddeuddeg mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol (y cyfnod asesu busnes gweithredol). Fel gydag unrhyw gwmni sy'n dibynnu ar endidau grŵp arall am gymorth ariannol, mae'r cyfarwyddwyr yn cydnabod na all fod unrhyw sicrwydd y bydd y cymorth hwn yn parhau er, ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn, nid oes ganddynt unrhyw reswm i gredu na fydd yn gwneud hynny.

Mae'r cyfarwyddwyr hefyd yn trafod gyda Barclays ar hyn o bryd i gytuno ar ddiwygiadau terfynol i rai cyfamodau perfformiad ariannol sy'n gysylltiedig i fenthyciad sicredig, a fydd yn galluogi'r Coleg i barhau i dyfu heb dorri unrhyw rai o'r amodau hyn. Mae'r banc wedi cytuno mewn egwyddor i'r diwygiadau ac mae'r cyfarwyddwyr yn ffyddiog y bydd y cytundeb benthyciad newydd gyda Barclays yn cael ei arwyddo yn y dyfodol agos.

O ganlyniad, mae'r cyfarwyddwyr yn hyderus y bydd gan y Coleg ddigon o arian i barhau i gyflawni ei rwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus am o leiaf deuddeg mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ac felly maent wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021

2 Polisïau cyfrifyddu

Cydnabyddiaeth incwm

Cydnabyddir incwm gan ffioedd hyfforddi dros y cyfnod y mae'r myfyrwyr yn astudio ac maent yn cynnwys yr holl ffioedd a godir ar y myfyrwyr neu eu noddwyr. Pan fo swm y ffi hyfforddi wedi cael ei leihau oherwydd disgownt am daliad prydlon, dangosir incwm derbyniadwy yn net o'r disgownt.

Credydwr incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau i'r Datganiad Cyfunol o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan gyflenwir y nwyddau neu'r gwasanaethau i'r cwsmeriaid allanol neu pan fo telerau'r contract wedi'u bodloni.

Credydwr incwm buddsoddiad i'r cyfrif incwm a gwariant ar sail symiau derbyniadwy.

Cyllido Grant

Cydnabyddir grantiau llywodraeth, yn cynnwys grant bloc y cyngor cyllido, yn incwm dros y cyfnodau y mae'r Coleg yn cydnabod y costau cysylltiedig ar gyfer y diben y rhoddwyd y grant ar ei gyfer. Pan fo rhan o grant llywodraeth yn ohiriedig, fe'i cydnabyddir fel incwm gohiriedig o fewn credydwr ac fe'i dyrennir rhwng credydwr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn ac yn ddyledus ar ôl blwyddyn fel sy'n briodol.

Rhoddion a Gwaddolion

Rhoddion a gwaddolion yw trafodion heb amodau cysylltiedig â pherfformiad na ellir eu cyfnewid. Cydnabyddir rhoddion a gwaddolion gyda chyfyngiadau a osodwyd gan y rhoddwr yn incwm pan fydd gan y Coleg hawl i'r cyllid. Cedwir incwm o fewn y gronfa wrth gefn â chyfyngiadau nes y caiff ei ddefnyddio yn unol â chyfyngiadau o'r fath. Cydnabyddir rhoddion heb gyfyngiadau yn incwm pan fydd gan y Coleg yr hawl i'r cyllid.

Cofnodir incwm buddsoddiad ac arbrisant gwaddolion yn incwm yn y flwyddyn y mae'n digwydd a naill ai fel incwm â chyfyngiadau neu heb gyfyngiadau yn ôl y telerau a roddwyd ar y gronfa waddol unigol.

Mae tri phrif fath o roddion a gwaddolion a nodir yn y cronfeydd wrth gefn:

1. Rhoddion gyda chyfyngiadau – mae'r rhoddwr wedi nodi'n benodol bod yn rhaid defnyddio'r rhodd ar gyfer amcan penodol
2. Gwaddolion parhaol heb gyfyngiadau – mae'r rhoddwr wedi nodi bod y gronfa i gael ei buddsoddi'n parhaol i greu ffrwd incwm er budd cyffredinol y Coleg
3. Gwaddolion gyda chyfyngiadau – mae'r rhoddwr wedi nodi bod y gronfa i gael ei buddsoddi'n parhaol i greu ffrwd incwm i'w defnyddio ar gyfer amcan penodol

Grantiau cyfalaf

Cydnabyddir grantiau cyfalaf llywodraeth yn incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased o dan ddull cronïadau. Cydnabyddir grantiau cyfalaf eraill yn incwm pan fydd y Coleg â'r hawl i'r arian yn ddarostyngedig i unrhyw amodau perfformio yn cael eu bodloni.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021

2 Polisiâu cyfrifyddu (parhad)

Cyfrifyddu ar gyfer buddion ymddeoliad

Y ddau brif gynllun pensiwn ar gyfer staff y Coleg yw'r Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS) a Chronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf (RCTPF), sy'n Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS). Cynllun buddion diffiniedig a ariennir yn allanol yw RCTPF.

Nid yw'n bosibl nodi cyfran pob sefydliad o'r rhwymedigaethau sylfaenol parthed TPS ac felly cyfrifyddir cyfraniadau i'r cynllun fel petai hwn yn gynllun cyfraniad diffiniedig, y gost wedi'i chydabod o fewn y datganiad incwm yn cyfateb i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun ar gyfer y cyfnod.

Buddion Cyflogaeth

Cydnabyddir budd cyflogaeth tymor byr megis cyflogau ac absenoldebau digolledol yn wariant yn y flwyddyn y rhoddodd y cyflogaeth wasanaeth i'r Coleg. Budd unrhyw fuddion nas defnyddiwyd yn cronni ac yn cael eu mesur fel y swm ychwanegol y mae'r Coleg yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i hawliad heb ei ddefnyddio.

Darpariaeth ar gyfer Ymddeoliadau Cynnar

Mae'r Cwmni'n cadw darpariaeth i dalu costau pensiwn sy'n codi o'r blynyddoedd gwasanaeth ychwanegol a roddir i rai aelodau staff sy'n ymddeol yn gynnar.

Sefydlir darpariaethau a chodir y costau cysylltiedig i'r cyfrif incwm a gwariant pan fo gan y Coleg rwymedigaeth gyfreithiol neu trwy ddehongliad. Mae'r ddarpariaeth yn ymwneud â threfniadau pensiwn athrawon heb eu hariannu uwch a sefydlwyd gan y Coleg. Buddiannau terfynu yw'r rhain a wneir yn seiliedig ar ddisgresiwn pan fydd ymddeoliad cynnar, parthed y Cynllun Pensiwn Athrawon.

Lesoedd Gweithredu

Codir costau parthed lesioedd gweithredu ar sail llinell syth dros dymor y les. Gwasgarir unrhyw bremymau neu gymhellion les dros isafswm tymor y les.

Asedau Diriaethol Sefydlog

Cofnodir asedau diriaethol sefydlog yn wreiddiol ar y pris prynu, yn cynnwys TAW anadferadwy, costau achlysurol caffaeliad, llai dibrisiad cronedig.

Darperir dibrisiad ar yr holl asedau diriaethol sefydlog ar gyfraddau a gyfrifir hyd dileu'r gost, llai y gwerth gweddilliol a amcangyfrifir ar gyfer pob ased, yn gyson dros ei hoes ddefnyddiol, fel y nodir isod. Codir dibrisiad am flwyddyn lawn o fewn y flwyddyn y daw'r ased honno ar gael i'w defnyddio.

Adolygir pob ased sefydlog ar gyfer arwyddion amhariad ar bob dyddiad mantolen.

Tir ac adeiladu

Bydd tir ac adeiladu a etifeddir gan Gorfforaeth Addysg Uwch Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn cael ei datgan yn y fantolen ar ei werth llyfr net pan y'i trosglwyddir.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021

2 Polisïau cyfrifyddu (parhad)

Ar 1 Awst 2014 cafodd oes asedau eu hailasesu a phennwyd cyfraddau dibrisiant diwygiedig i'r gwerth llyfr net nesaf ar y dyddiad hwnnw. Mae'r adeilad Raymond Edwards gwreiddiol yn cael ei ddibrisio dros 35 mlynedd, gyda'r cyfleusterau ychwanegol yn cael eu dibrisio dros 50 o flynyddoedd, sef yr oes economaidd ddefnyddiol gweddilliol disgwylidig.

Mae tir wedi cael ei ailbrisio i werth teg pan newidiwyd i'r SORP Addysg Bellach ac Uwch 2015, gan arwain ar gronfa ailbrisio wrth gefn gwerth £1,819,000. Ni ddibrisir tir, boed yn rhydd-ddaliadol neu'n lesddaliadol, gan y credir bod ganddo oes ddefnyddiol ddiderfyn.

Dibrisir adeiladau lesddaliadol hir dros y byrraf o dymor y les a'r oes ddefnyddiol ddisgwylidig.

Cyfalafir adeiladau sy'n cael eu codi yn ôl cost. Cyfalafir llog ar fenthyciadau a ddefnyddir i gyllido prosiectau cyfalaf hyd nes y deuir â phrosiectau o'r fath i ddefnydd. Ni chodir dibrisiad, hyd y flwyddyn y deuir ag adeiladau sy'n cael eu codi i ddefnydd.

Gosodiadau, ffitiadau ac offer a pheiriannau

Cydnabyddir eitemau sy'n costio llai na de minimums o £300 fesul eitem unigol, fel gwariant. Caiff yr holl offer arall ei gyfalafu.

Bydd offer a gyfalafir yn cael ei ddatgan ar gost, yn cynnwys TAW anadferadwy, ac fe'i dibrisir dros ei oes ddefnyddiol, fel a ganlyn:

Gosodiadau a ffitiadau	- 7 mlynedd llinell syth
Peiriannau ac offer	- rhwng 3-10 mlynedd llinell syth

Asedau Treftadaeth

Asedau diriaethol yw asedau treftadaeth sydd â rhinwedd hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol a ddelir ac a gynhelir yn bennaf oherwydd eu cyfraniad i wybodaeth a diwylliant. Asedau treftadaeth yw'r asedau hynny a fwriedir i gael eu cadw mewn ymddiriedaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwylliannol, amgylcheddol a hanesyddol.

Mae asedau treftadaeth sydd wedi'u caffael ers ffurfio'r Coleg wedi cael eu cyfalafu i'r fantolen ar y gost wreiddiol. Cofnodir asedau treftadaeth a roddwyd ar bris a amcangyfrifir ar ddyddiad y rhodd oni bai nad yw hynny'n ymarferol, ac os felly gwneir y datgeliadau priodol am natur a maint y rhoddion hynny. Mewn cyfnodau dilynol, delir asedau treftadaeth ar gost llai unrhyw amhariad a nodir.

Mae gwybodaeth am brisiad asedau treftadaeth wedi'i rhoi yn nodyn 11.

Buddsoddiadau

Delir buddsoddiadau ar werth teg gyda symudiadau'n cael eu cydnabod yn incwm a gwariant.

Arian parod

Mae arian parod yn cynnwys arian mewn llaw a buddsoddiadau sy'n cyfateb i arian parod.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021

2 Polisiâu cyfrifyddu (parhad)

Buddsoddiadau sy'n cyfateb i arian parod yw buddsoddiadau byrdymor hynod hylifol y gellir eu trosi'n hawdd yn symiau hysbys o arian parod gyda risg ansylweddol o newid mewn gwerth.

Trethiant

Elusen sydd wedi'i chofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau, rhif 1139282, yw'r Coleg ac felly mae'n elusen gydag ystyr Paragraff 1 Atodlen 6 Deddf Cyllid 2010. Yn unol â hynny, mae'r Coleg o bosibl wedi'i eithrio rhag trethiant parthed incwm neu enillion cyfalaf a dderbynnir o fewn categorïau a gwmpesir gan Adrannau 478 i 488 Deddf Trethi Corfforaethol 2010 (CTA 2010) (a ddeddfwyd yn flaenorol yn Adran 505 Deddf Incwm a Threthi Corfforaethol 1988 (ICTA)) neu Adran 256 Deddf Trethiant Enillion Trethadwy 1992 i'r graddau bod incwm neu enillion o'r fath yn cael eu defnyddio'n llwyr at ddibenion elusennol. Nid yw'r Coleg yn cael eithriad tebyg parthed Treth ar Werth.

Benthyciadau

Ystyrir benthyciadau sydd naill ai ddim yn cronni llog neu pan fo llog yn cael ei godi sy'n llai na chyfradd y farchnad yn fenthyciadau consesiynol endid budd cyhoeddus. Cydnabyddir y benthyciadau hyn yn wreiddiol ar y swm o arian parod a dderbyniwyd ac yna fe'u haddasir i adlewyrchu'r llog cronedig taladwy.

Cronfeydd wrth gefn

Dosbarthir cronfeydd wrth gefn fel rhai gyda chyfyngiadau neu heb gyfyngiadau. Mae cronfeydd gwaddol wrth gefn gyda chyfyngiadau yn cynnwys balansau sydd, drwy waddol i'r Coleg, yn cael eu dal fel cronfa gyda chyfyngiad parhaol y mae'n rhaid i'r Coleg ei dal yn fytholbarhaus.

Mae cronfeydd wrth gefn gyda chyfyngiadau eraill yn cynnwys balansau lle mae'r rhoddwr wedi dynodi diben penodol ac felly mae cyfyngiad ar sut y gall y Coleg ddefnyddio'r cronfeydd hyn.

**Nodiadau i'r datganiadau ariannol
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021**

			2021	2020
			£'000	£'000
3	Ffioedd dysgu a chontractau addysg	Nodyn		
	Myfyrwyr cartref ac UE amser llawn		6,594	6,371
	Myfyrwyr rhyngwladol amser llawn		1,788	1,708
	Ffioedd Cyrsiau Byr		601	580
			8,983	8,659
4	Grantiau cyrff ariannu		2021	2020
			£'000	£'000
	Cyngor Cyllido Addysg Uwch		3,746	3,485
	Amorteiddiad Grant Cyfalaf Gohiriedig	14	251	135
			3,998	3,620
5	Incwm arall		2021	2020
			£'000	£'000
	Arlwyo		115	361
	Grantiau cyfalaf eraill	14	34	34
	Incwm arall		974	733
			1,123	1,128
6	Incwm o fuddsoddiadau		2021	2020
			£'000	£'000
	Incwm o fuddsoddiadau ar waddolion	17	62	64
	Incwm o fuddsoddiadau eraill		32	77
			94	141
7	Rhoddion a gwaddolion		2021	2020
			£'000	£'000
	Gwaddolion newydd	17	3	0
	Rhoddion gyda chyfyngiadau	18	672	872
	Rhoddion heb gyfyngiadau		375	973
			1,051	1,845

**Nodiadau i'r datganiadau ariannol
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021**

8 Costau staff

	2021	2020
	£'000	£'000
Costau Staff		
Cyflogau	6,944	6,784
Costau nawdd cymdeithasol	614	581
Costau pensiwn eraill	2,084	1,699
Cyfanswm	9,642	9,064

Cydnabyddiaeth ariannol cyfarwyddwyr a cyflogeion uwch eu tâl

	2021	2020
	£'000	£'000
(a) Cyfarwyddwyr		
Cyflog	222	220
Buddion	3	2
Cyfraniadau pensiwn i LPGS	37	34
	261	257

Yn ogystal mae un cyfarwyddwr yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol yn ei swydd fel Llywydd Undeb y Myfyrwyr.

	2021	2020
	£'000	£'000
(b) Cyflogeion uwch eu tâl		
Taliadau'r Prifathro:		
Cyflog	152	152
Buddion	3	2
Cyfraniadau pensiwn i LPGS	25	24
	179	178

Niferoedd staff cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd yn ôl prif gategorïau, yn cynnwys deiliaid uwch swyddi

	2021	2020
Academaidd	100	103
Arall	81	84
	181	187

Niferoedd staff ar sail cyfrif pennau ar gyfartaledd yn ôl prif gategorïau, yn cynnwys deiliaid uwch swyddi

	2021	2020
Academaidd	231	241
Arall	154	208
	386	449

Cydnabyddiaeth ariannol Prifathro'r Coleg wedi'i mynegi fel

	2021	2020
Cyflog sylfaenol fel cymhareb o gyflog sylfaenol canolrifol yr holl staff	4.63	4.50
Cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol fel cymhareb o gyfanswm cydnabyddiaeth ariannol	4.63	4.50

Treuliau ymddiriedolwyr a thrafodion partïon cysylltiedig

Aelodau Bwrdd y Coleg yw'r Ymddiriedolwyr ar gyfer diben cyfraith elusennol.

Nid oedd gan unrhyw Ymddiriedolwr neu unigolyn arall cysylltiedig â'r Elusen unrhyw fudd personol mewn unrhyw g y cytunodd yr Elusen arnynt yn ystod y flwyddyn

Cyfanswm y treuliau a dalwyd i neu ar ran aelodau'r Bwrdd oedd £0 (2020 - £170).

Mae hyn yn cynrychioli treuliau teithio a chynhaliadau a gafwyd wrth fynychu cyfarfodydd.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021

	2021	2020
	£'000	£'000
9 Llog a chostau ariannu eraill		
Llog benthychiadau	320	328
Tâl net ar gynllun pensiwn (gweler nodyn 23)	125	174
	444	502

	2021	2020
	£'000	£'000
10 Dadansoddiad o gyfanswm y gwariant yn ôl gweithgaredd		
Gwariant academiaidd a chysylltiedig	9,428	8,726
Gweinyddu a gwasanaethau canolog	3,139	3,180
Eiddo	2,144	2,005
Cyfnodau preswyl, arlwyo a chynadledau	243	429
Treuliau eraill	1,183	1,020
	16,138	15,359

Mae treuliau gweithredu eraill yn cynnwys:

	2021	2020
	£'000	£'000
Cydnabyddiaeth ariannol archwilwyr allanol parthed gwasanaethau	30	29
Cydnabyddiaeth ariannol archwilwyr allanol parthed gwasanaethau nad	0	3
Rhenti prydles gweithredu - arall	158	110

**Nodiadau i'r datganiadau ariannol
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021**

11 Asedau Diriaethol					
	Tir ac Adeiladau Rhydd-ddaliadol	Tir ac Adeiladau Lesddaliadol	Offer a Pheiriannau	Gosodiadau, Ffitiadau a Chyfarpar	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost neu brisio					
Ar 1 Awst 2020	27,893	2,318	4,034	1,556	35,801
Ychwanegiadau	0	0	513	32	545
Gwarediadau	0	0	(43)	(67)	(110)
Ar 31 Gorffennaf 2021	27,893	2,318	4,504	1,520	36,235
Yn cynnwys:					
Prisiad	1,819	0	0		1,819
Cost	26,074	2,318	4,504	1,520	34,416
Ar 31 Gorffennaf 2021	27,893	2,318	4,504	1,520	36,235
Dibrisio cronedig					
Ar 1 Awst 2020	5,206	1,272	3,390	1,017	10,884
Tâl ar gyfer y flwyddyn	469	21	324	122	937
Gwarediadau	0	0	0	0	0
Ar 31 Gorffennaf 2021	5,675	1,292	3,714	1,139	11,820
Gwerth Gwerth llyfr net					
Ar 31 Gorffennaf 2021	22,218	1,026	790	382	24,415
Ar 31 Gorffennaf 2020	22,687	1,046	645	539	24,917

Wedi'i gynnwys yn y gwerth llyfr net o asedau sefydlog y mae llog cyfanredol wedi'i gyfalafu o £290k (2020 - £298k).

Asedau Treftadaeth		
	Asedau Treftadaeth	Cyfanswm
	£'000	£'000
Cost		
Ar 1 Awst 2020	500	500
Ar 31 Gorffennaf 2021	500	500

Nod y Coleg yw cynnal cyflwr y casgliad drwy ei letya mewn ardal benodol sydd wedi'i rheoli. Bydd eitemau o'r casgliad yn cael eu harddangos yn gyhoeddus mewn gwahanol arddangosfeydd dros dro. Ar hyn o bryd mae'r Coleg wrthi'n catalogio'r casgliad.

Asedau Eraill

Mae'r Coleg wedi rhoi taliad bond gwerth £135,000 fel sicrwydd yn erbyn prydles gweithdy.

**Nodiadau i'r datganiadau ariannol
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021**

12 Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill

	2021 £'000	2020 £'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:		
Symiau derbyniadwy masnach	37	33
Symiau derbyniadwy eraill	4	12
Rhagdaliadau ac incwm cronnus	75	148
Symiau'n ddyledus o riant-ymgymeriad	30	18
	<u>146</u>	<u>211</u>

Mae'r symiau sy'n ddyledus o riant-ymgymeriad yn rhydd o log ac yn ad-daladwy ar alw.

13 Buddsoddiadau

	2021 £'000	2020 £'000
Buddsoddiad tymor byr mewn cyfranddaliadau	2,219	2,056
Bondiau tymor byr	5,971	5,828
	<u>8,189</u>	<u>7,884</u>

14 Credydwy'r: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

	2021 £'000	2020 £'000
Benthyciadau sicredig	173	165
Benthyciadau ansicredig	958	1,292
Symiau sy'n ddyledus i riant-ymgymeriad	10	668
Credydwy'r eraill	340	334
Taladwyon masnach	77	32
Nawdd cymdeithasol a threthiant arall sy'n daladwy	118	121
Croniadau ac incwm gohiriedig	1,890	1,847
	<u>3,565</u>	<u>4,460</u>

Mae'r symiau sy'n ddyledus i riant-ymgymeriad yn rhydd o log ac yn ad-daladwy ar alw.

Mae'r Benthyciad Sicredig yn fenthyciad ratach ar gyfer endid budd y cyhoedd.

Incwm gohiriedig

Mae croniadau ac incwm gohiriedig yn cynnwys incwm arall sydd wedi'i ohirio hyd nes y bodlonir amodau penodol cysylltiedig â pherfformiad a grantiau cyfalaf gohiriedig, a ryddheir yn gyson dros fywydau defnyddiol yr asedau perthnasol.

	2021 £'000	2020 £'000
Incwm arall	314	158
Grantiau cyfalaf gohiriedig (gweler nodiadau 4 a 5)	286	169
	<u>600</u>	<u>327</u>

**Nodiadau i'r datganiadau ariannol
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021**

15 Credydwy: symiau sy'n ddyledus wedi mwy na blwyddyn

	2021 £'000	2020 £'000
Grant cyfalaf gohiriedig	7,145	7,181
Benthyciadau sicredig	5,749	5,921
Benthyciadau ansicredig	1,167	2,125
	14,061	15,227

Dadansoddiad o fenthyciadau sicredig ac ansicredig:

	2021 £'000	2020 £'000
Yn ddyledus o fewn blwyddyn neu ar alw (Nodyn 14)	1,131	1,457
Yn ddyledus rhwng un a dwy flynedd	1,347	1,131
Yn ddyledus rhwng dwy a phum mlynedd	603	1,739
Yn ddyledus mewn pum mlynedd neu fwy	4,966	5,176
Yn ddyledus ar ôl blwyddyn	6,916	8,046
Cyfanswm benthyciadau sicredig ac ansicredig	8,047	9,503
Benthyciad sicredig yn ad-daladwy erbyn 2041*	5,922	6,086
Benthyciad ansicredig yn daladwy erbyn 2023	2,125	3,417
	8,047	9,503

Wedi'i gynnwys yng nghyfanswm y balans uchod y mae'r canlynol sy'n ddyledus mewn mwy na dwy flynedd

	Llog	Ad-daliad	Tymor	2021 £'000	2020 £'000
Banc Barclays					
Pob cyfran	5.34%	Quarterly	33 years (to 2041)	5,569	5,921

* Mae telerau'r cytundeb benthyciad sicredig yn dweud y gall y Banc ofyn i'r Coleg gytuno ar dâl ar y tir a'r adeiladau sy'n eiddo i'r Coleg os bydd rhai cyfamodau'n cael eu torri.

Nid oes tâl wedi'i gofrestru ar hyn o bryd yn hyn o beth ac nid yw'r Cyfarwyddwr yn teimlo y bydd yn debygol y bydd angen unrhyw dŵ yn ystod y 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol.

16 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau

	Darpariaeth Uwch Budd Diffiniedig £'000	Darpariaeth cynllun pensiwn o dan FRS102 £'000	Darpariaethau eraill £'000	Cyfanswm £'000
Ar 1 Awst 2020	190	8,646	35	8,871
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn blwyddyn	(4)	0	13	9
Cynnydd mewn blwyddyn (gweler nodyn 23)	0	893	0	893
Ar 31 Gorffennaf 2021	186	9,539	48	9,773

Mae Darpariaeth eraill yn cynnwys gwaith adfer wedi dadfeiliad yn y dyfodol ar eiddo'r Coleg a rentir, a chostau dileu swyddi.

**Nodiadau i'r datganiadau ariannol
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021**

17 Cronfeydd Wrth Gefn Gwaddol

Mae asedau net cyfyngedig yn ymwneud a gwaddolion fel a ganlyn:

	Gwaddolion parhaol cyfyngedig	Gwaddolion parhaol anghyfyngedig	Blwyddyn hyd 31 Gorffennaf 2021	Blwyddyn hyd 31 Gorffennaf 2020
	£'000	£'000	Cyfanswm £'000	Cyfanswm £'000
Balansau Agoriadol				
Cyfalaf	349	1,880	2,228	2,376
Incwm cronnus	71	176	247	254
	419	2,056	2,475	2,629
 Gwaddolion newydd	-	3	3	-
Incwm o fuddsoddiadau	10	52	62	64
Gwariant	(7)	(38)	(45)	(71)
Cynnydd mewn gwerth marchnad buddsoddiadau	54	291	345	(148)
 Cyfanswm incwm cynhwysfawr gwaddolion ar gyfer y flwyddyn	57	309	366	(154)
 Balansau wrth Gau	476	2,364	2,840	2,475
 Cynrychiolir gan:				
Cyfalaf	403	2,174	2,577	2,228
Incwm cronnus	74	190	264	247
	476	2,364	2,840	2,475
 Dadansoddiad yn ôl math diben:				
Ysgoloriaethau a chronfeydd gwobrau	476	2,364	2,840	2,475
	476	2,364	2,840	2,475
 Dadansoddiad yn ôl ased				
Buddsoddiadau asedau cyfredol			2,689	2,343
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod			152	132
			2,840	2,475

18 Cronfeydd Cyfyngedig Wrth Gefn

Mae cronfeydd wrth gefn gyda chyfyngiadau fel a ganlyn:

	Blwyddyn hyd 31 Gorffennaf 2021	Blwyddyn hyd 31 Gorffennaf 2020
	Cyfanswm £'000	Cyfanswm £'000
Balansau Agoriadol	1,327	1,115
 Rhoddion newydd	671	872
Gwariant	(594)	(661)
 Cyfanswm incwm cynhwysfawr cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn	77	211
 Balansau wrth Gau	1,404	1,327

**Nodiadau i'r datganiadau ariannol
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021**

18 Cronfeydd Cyfyngedig Wrth Gefn (parhad)

	2021 £'000	2020 £'000
Dadansoddiad o gronfeydd/rhoddion cyfyngedig eraill yn ôl math diben		
Cronfeydd ysgoloriaethau a gwobrau	583	631
Prosiectau penodol	53	68
Arall	35	173
	671	872

19 Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

	Ar 1 Awst 2020 £'000	Llifau Arian £'000	Ar 31 Gorffennaf 2021 £'000
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod	2,742	(1,375)	1,367
	2,742	(1,375)	1,367

20 Rhwymedigaethau prydles

Cyfanswm rhenti sy'n daladwy o dan brydlesi gweithredu:

	2021 £'000	2020 £'000
Taladwy yn ystod y flwyddyn	158	110
Isafswm taliadau prydles yn y dyfodol sy'n ddyledus:		
Dim hwyrach na blwyddyn	167	158
Hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na 5 mlynedd	720	700
Hwyrach na 5 mlynedd	3,275	3,464
Cyfanswm taliadau prydles sy'n ddyledus	4,163	4,321

21 Partïon Cysylltiedig

Gan fod y Coleg yn is-gwmni ym mherchnogaeth lawn Prifysgol De Cymru, mae'r Coleg wedi manteisio ar yr eithriad sydd wedi'i gynnwys yn Adran 33 FRS102 ac felly nid yw wedi datgelu trafodion na balansau gydag is-gwmnïau eraill ym mherchnogae sy'n llunio rhan o'r Grŵp (neu fuddsoddwyr y Grŵp sy'n cymhwyso fel partïon cysylltiedig).

Nid oes unrhyw drafodion partïon cysylltiedig eraill i adrodd arnynt.

22 Rhiant-ymrwymiad Terfynol

Y rhiant-ymrwymiad a'r sefydliad sydd â'r rheolaeth derfynol yw Prifysgol De Cymru, Corfforaeth Addysg Uwch a sefydlwyd o dan Ddeddf Diwygio Addysg 1988. Mae canlyniadau'r Cwmni wedi cael eu cynnwys yn natganiadau ariannol cyfunol Prifysgol De Cymru, sy'n llunio'r grŵp mwyaf a lleiaf y mae datganiadau ariannol y Cwmni yn cael eu cyfuno ar eu cyfer, y gellir cael copïau ohonynt o'r cyfeiriad canlynol:

Prifysgol De Cymru
Pontypridd
Rhondda Cynon Taf
CF37 1DL

**Nodiadau i'r datganiadau ariannol
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021**

23 Cynlluniau Pensiwn

Mae'r Coleg yn cyfranogi mewn dau gynllun pensiwn, Cronfeydd Pensiwn Rhondda Cynon Taf (RCTPF), cynllun pensiwn llywodraeth leol ar gyfer staff sydd ddim yn rhai academiaidd a'r Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS) ar gyfer staff academiaidd.

Cynllun Pensiwn Athrawon

Cynllun cyflog terfynol cyfranogol statudol yw TPS a weinyddir gan Pensiynau Athrawon ar ran yr Adran Addysg. O dan y TPS, sy'n gynllun nas ariennir, mae cyfraniadau cyflogaion a chyflogwyr yn cael eu credydu i'r Canghellor o dan y trefniadau a lywodraethir gan Ddeddf Blwydd-daliadau 1992. Bob 5 mlynedd bydd Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD), gan ddefnyddio arferion actiwaraidd arferol, yn cynnal adolygiad actiwaraidd o'r TPA.

Mae'r tybiaethau a'r data arall sy'n cael yr effaith mwyaf sylweddol ar bennu'r lefelau cyfraniadau fel a ganlyn:

Prisiad actiwaraidd diweddaraf 31 Mawrth 2016

Prisiad yr asedau a dyddiad y prisiad diwethaf £196.1 miliwn (amcangyfrif o gyfraniadau'r dyfodol ynghyd â buddsoddiadau tybiannol a ddaliwyd ar 31 Mawrth 2016).

Cynyddodd y gyfradd cyfrannu o 16.48% i 23.68% ar 1 Medi 2019.

O dan y diffiniadau a nodir yn Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS102) mae'r TPS yn gynllun pensiwn aml-gyflogwr. Ni all y Coleg nodi ei gyfran o asedau gwaelodol y cynllun.

Felly, mae'r Coleg wedi manteisio ar yr eithriad yn FRS102 ac mae wedi cyfrifo am ei gyfraniadau i'r cynllun fel pe byddai'n gynllun cyfraniad-ddiffiniedig. Mae'r Coleg wedi nodi'r wybodaeth uchod sydd ar gael ar ddiffyg yn y cynllun a'r goblygiadau o ran y cyfraddau cyfraniadau a ragwelir.

Cynllun Pensiwn Rhondda Cynon Taf

Cynllun pensiwn galwedigaethol â buddion diffiniedig yw'r cynllun. Cyn mis Ebrill 2014 mae buddion wedi'u cysylltu i gyflog pensiynadwr terfynol a gwasanaeth ar y dyddiad ymddeol (neu ddyddiad gadael y cynllun os yn gynharach), wedi mis Mawrth 2014 mae buddion yn cael eu cyfrifo ar sail Cyfartaledd Enillion wedi'u Hailbriso yn ystod Gyrfa (CARE).

Prisir y cynllun bob tair blynedd, a chynhaliwyd y diweddaraf gan ar yr actiwari ymgynghori annibynnol, Aon Hewitt, ar 31 Mawrth 2019.

Tybiaethau

Y tybiaethau ariannol a ddefnyddir i gyfrifo rhwymedigaethau'r cynllun o dan FRS102 yw:

	2021	2020
	% pa	% pa
Chwyddiant Prisiau (CPI)	2.90	2.20
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau pensiynadwy	3.90	3.20
Cyfradd ddisgownt/incwm llog ar asedau	1.65	1.45

Mewn ymateb i ddiwygiad parhaus RPI mae'r actwari wedi newid ei ddull ar gyfer gosod y dybiaeth CPI: cynnydd yn y Premiwm Risg Chwyddiant a lleihad yn y gwahaniaeth hirdymor rhwng RPI a CPI. Effaith gyfunol y newid hwn yw cynnydd o tua £2.3 miliwn yn y rhwymedigaeth budd diffiniedig ar 31 Gorffennaf 2021.

Dewiswyd y tybiaethau ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu presennol gan gyfeirio ar hyd rhwymedigaethau'r Cyflogwr. Amcangyfrifwyd hyn i fod yn tua 23.1 o flynyddoedd.

Y dybiaeth anariannol fwyaf arwyddocaol yw lefel dybiaethol hirhoedledd. Mae'r tabl isod yn dangos y tybiaethau disgwyliad oes a ddefnyddiwyd yn yr asesiadau cyfrifyddu yn seiliedig ar ddisgwyliad oes aelodau gwrywaidd a benywaidd yn 65 oed.

	2021		2020	
	Gwrywod	Benywod	Gwrywod	Benywod
Pensiynwr 65 oed	21.3	23.7	21.0	23.5
Aelod gweithredol 65 oed	21.8	24.9	21.8	24.4

**Nodiadau i'r datganiadau ariannol
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021**

23 Cynlluniau Pensiwn (parhad)

Prisir yr asedau yn y cynllun ar werth teg ac maent yn cynnwys:

	2021	2020
	£'000	£'000
Ecwiti	12,710	9,183
Bondiau llywodraeth	2,162	1,616
Bondiau corfforaethol	2,173	1,575
Eiddo	1,133	1,010
Arian parod	35	81
Cyfanswm	<u>18,211</u>	<u>13,465</u>

Dadansoddiad o'r swm a ddangosir yn y fantolen ar gyfer pensiynau LGPS:

	2021	2020
	£'000	£'000
Asedau'r cynllun	18,211	13,465
Rhwymedigaethau'r cynllun	(27,750)	(22,111)
Diffyg yn y cynllun – rhwymedigaeth pensiwn net		
a gofnodwyd o fewn darpariaethau pensiwn (Nodyn 16)	<u>(9,539)</u>	<u>(8,646)</u>

	2021	2020
	£'000	£'000
Costau gwasanaethu cyfredol	1,293	982
Taliadau gwasanaethu a gweinyddu yn y gorffennol	14	13
Cyfanswm tâl gweithredu	<u>1,307</u>	<u>995</u>

Dadansoddiad o'r swm a godir ar log taladwy/a gredydwyd i incwm ariannu arall ar gyfer pensiynau LGPS:

	2021	2020
	£'000	£'000
Cost llog	326	442
Enillion disgwylidig ar asedau	(204)	(274)
Tâl net i incwm ariannu arall	<u>122</u>	<u>168</u>
Taliadau i'r Gronfa	<u>(462)</u>	<u>(464)</u>
Tâl i'r Datganiad Incwm a Gwariant	<u>966</u>	<u>699</u>

Dadansoddiad o incwm cynhwysfawr arall ar gyfer pensiynau LGPS:

	2021	2020
	£'000	£'000
Enillion ar asedau	3,314	803
Profiad (colled) ar rwymedigaethau	(3,241)	(1,082)
Profiad (colled) ar rwymedigaethau (Darpariaeth Uwch ar Derfyniad)	(7)	88
	<u>66</u>	<u>(192)</u>

Nodiadau i'r datganiadau ariannol
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021

23 Cynlluniau Pensiwn (parhad)

Hanes o enillion a cholledion brofiad – pensiynau LGPS

	2021	2020	2019	2018	2017
Y gwahaniaeth rhwng yr enillion gwirioneddol a disgwyliedig ar asedau'r cynllun:					
Swm (£ miliwn)	3,314	803	519.4	769	470
Colledion/(Enillion) profiad ar rwymedigaethau'r cynllun:					
Swm (£ miliwn)	(3,241)	(1,082)	(1,782)	214	(1,402)

	2021	2020
	£'000	£'000
Colled actiwaraid cronol a gydnabyddir fel incwm cynhwysfawr arall ar gyfer LGPS		
Colledion actiwaraid cronol a gydnabuwyd ar ddechrau'r flwyddyn	2,945	2,665
Colledion actiwaraid cronol a gydnabuwyd ar ddiwedd y flwyddyn	2,872	2,945
	2021	2020
	£'000	£'000

Dadansoddiad o symudiad mewn diffyg ar gyfer pensiwn LGPS		
Diffyg ar ddechrau'r flwyddyn	(8,645)	(7,702)
Cyfraniadau neu fuddion a dalwyd gan y Coleg	462	499
Cost gwasanaethu cyfredol	(1,293)	(982)
Tâl ariannu arall	(136)	(181)
Enillion/(Colled) actiwaraid a gydnabyddir mewn incwm cynhwysfawr arall	73	(279)
Diffyg ar ddiwedd y flwyddyn	(9,538)	(8,645)

	2021	2020
	£'000	£'000
Dadansoddiad o symudiad yng ngwerth presennol LGPS		
Gwerth presennol LGPS ar ddechrau'r flwyddyn	22,111	19,640
Cost gwasanaethu cyfredol (net o gyfraniadau aelodau)	1,293	982
Cost llog	326	442
Cyfraniadau gwirioneddol aelodau (yn cynnwys cyfraniadau tybiannol)	226	187
Colled actiwaraid	3,241	1,082
Taliadau buddion gwirioneddol	554	(222)
Gwerth presennol rhwymedigaethau LGPS ar ddiwedd y flwyddyn	27,751	22,111

	2021	2020
	£'000	£'000
Dadansoddiad o symudiad yng ngwerth teg asedau'r cynllun		
Gwerth teg asedau ar ddechrau'r flwyddyn	13,465	11,938
Enillion disgwyliedig ar asedau	204	274
Enillion actiwaraid ar asedau	3,314	803
Cyfraniadau gwirioneddol a dalwyd gan y Coleg	462	499
Cyfraniadau gwirioneddol aelodau (yn cynnwys cyfraniadau tybiannol)	226	187
Taliadau buddion gwirioneddol	554	(222)
Treuliau gweinyddu	(14)	(13)
Gwerth teg asedau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn	18,211	13,465

Nid yw asedau LGPS yn cynnwys unrhyw offerynnau ariannol y Coleg ei hun, nac unrhyw eiddo a feddiannir gan y Coleg.

	2021	2020
	£'000	£'000
Enillion gwirioneddol ar asedau'r Cynllun		
Enillion disgwyliedig ar asedau'r Cynllun	204	274
Enillion o ran asedau	3,314	803
	3,518	1,076

Cyfraniadau a amcangyfrifir ar gyfer LGPS yn y Flwyddyn Ariannol 2021-22 yw £440k gan dybio 95% o aelodau yn ei dde